



TRIBIWNLYSOEDD CYFLOGAETH

Hawlydd: Mrs Mattick

Atebydd: Aelodau Pwyllgor Rheoli Cylch Meithrin Aberystwyth

Lleoliad y gwrandawriad: Canolfan Cyfiawnder
Aberystwyth

Ar: Tachwedd 29 a 30, 2016

Gerbron: Y Barnwr Cyflogaeth R McDonald

Cynrychiolaeth:

Hawlydd: Drosto'i hun

Atebydd: Ms H Roddick,
bargyfreithiwr.

DYFARNIAD

Mae'r Tribiwnlys yn dyfarnu fel a ganlyn:

1. Nid oedd diswyddiad yr Hawlydd yn annheg.

RHESYMAU

1. Mae'r Hawlydd yn honni bod ei ddiswyddo dirybudd gan yr Atebydd ar 10 o Chwefror 2016 yn ddiswyddo annheg.
2. Mae'r Atebydd yn rhedeg Cylch Meithrin Aberystwyth ("y Cylch"). Mae'r Atebydd yn cael ei redeg gan bwyllgor o wirfoddolwyr ("y Pwyllgor"). Er mwyn bod yn glir ni ddylai Heulwen Davies fod wedi ei henwi fel Atebydd

- unigol i'r achos (oni bai fel aelod o'r Pwyllgor) gan mai'r Pwyllgor oedd cyflogwr yr Hawlydd.
3. Yn y gwrandawriad roedd yr Hawlydd yn cynrychioli ei hun a Ms Roddick (bargyfreithiwr) yn cynrychioli'r Atebydd. Ar ran yr Hawlydd fe glywais dystiolaeth gan yr Hawlydd ei hun a'i merch, Cheryl Davies. Ar ran yr Atebydd fe glywais dystiolaeth gan Heulwen Davies, cadeirydd y Pwyllgor adeg y diswyddiad; Morfudd Bevan, aelod o'r Pwyllgor ar y pryd; Carys Lloyd, arweinydd y Cylch; a Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu Gwasanaeth ac AcadeMI Y Mudiad Meithrin ("y Mudiad"). Y Mudiad yw'r corff ymbarél ar gyfer gofal ac addysg blynnyddoedd cynnar yng Nghymru.
 4. Roedd y tystion i gyd wedi paratoi datganiadau ysgrifenedig. Gan mai Cymraeg yw iaith gyntaf y tystion ac iaith y Cylch roedd tystion yr Atebydd wedi paratoi datganiadau Cymraeg ond hefyd wedi paratoi cyfieithiad Saesneg o bob datganiad i'w defnyddio yn y gwrandawriad. Mae'r Hawlydd hefyd yn siarad Cymraeg ond fel nododd y Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol yn y gwrandawriad rhagarweiniol roedd hi'n teimlo'n fwy cyffyrddus yn rhoi ei thystiolaeth a chynnal y gwrandawriad yn Saesneg. Roedd hi a'i merch wedi paratoi datganiadau yn Saesneg. Rwyf i'n siarad Cymraeg ac roedd cyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael trwy gydol y gwrandawriad.
 5. Ar ddechrau'r gwrandawriad cawsom drafodaeth ynglŷn ag iaith y gwrandawriad. Er mwyn cynnal gwrandawriad teg roedd hi'n bwysig bod yr Hawlydd yn deall yr hyn a oedd yn digwydd yn y gwrandawriad ac yn deall unrhyw bwynt proses neu gyfreithiol dan drafodaeth. Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan ei bod yn cynrychioli ei hun heb gyngor cyfreithiol. Penderfynais felly i gynnal y gwrandawriad yn bennaf yn Saesneg. Ar y llaw arall, penderfynais y byddai'n anaddas ac artiffisial i ofyn i dystion yr Atebydd i roi eu dystiolaeth yn Saesneg gan mai Cymraeg yw eu iaith gyntaf ac iaith y rhan fwyaf o fusnes bob dydd y Cylch. O ganlyniad, rhoddodd tystion yr Atebydd eu prif dystiolaeth yn Gymraeg. Wrth eu croesholi, gofynnodd yr Hawlydd ei chwestiynau yn bennaf yn Saesneg ac atebodd y tystion yn bennaf yn Gymraeg. Wrth holi tystion yr Atebydd gofynnais gwestiynau yn Gymraeg a chael atebion Cymraeg. Roedd cyfieithiad ar y pryd ar gael trwy gydol y gwrandawriad. Ni awgrymodd yr Hawlydd ar unrhyw bryd yn ystod y gwrandawriad i'r modd yma o gynnal y gwrandawriad wedi achosi anhawter iddi.
 6. Roedd y partiön wedi paratoi bwndel o ddogfennau ar gyfer y gwrandawriad. Fel sy'n arferol fe ddarllenais y dogfennau y cyfeiriwyd atynt yn benodol gan dystion yn eu datganiadau neu yn y gwrandawriad yn hytrach na'r bwndel cyfan.
 7. Wedi clywed y dystiolaeth dros gwrandawriad deuddydd 'doedd dim amser i glywed dadleuon y partiön felly gorchmynnais i'r partiön anfon dadleuon ysgrifenedig i'r tribiwnlys. Rwy'n ddiolchgar i Ms Roddick ar ran yr Atebydd am gytuno i anfon dadleuon ysgrifenedig yr Atebydd yn gyntaf (erbyn 7 Rhagfyr) er mwyn rhoi syniad i'r Atebydd o'r strwythur a'r pwyntiau roedd angen eu trafod yn ei dadleuon ysgrifenedig hi (erbyn 14 Rhagfyr). Er

tegwch i'r Atebydd rhoddais gyfle i Ms Roddick anfon dadleuon ychwanegol erbyn 19 Rhagfyr) i ateb unrhyw bwyntiau yn nadleuon yr Hawlydd. Derbyniais e-bost i gadarnhau nad oedd yr Atebydd am anfon dadleuon ychwanegol.

8. Er cymorth i'r partïon fe dynnais eu sylw at adroddiadau achosion a oedd yn ymddangos i mi yn berthnasol. Trafodir y rhain yn yr adran "Cyfraith Berthnasol" islaw.
9. Rwy'n ymddiheuro i'r partïon i anhwylder a'r angen i baratoi feriyynnau Cymraeg a Saesneg o'r dyfarnia olygu nad oedd yn bosibl i anfon y dyfarniad mor gyflym ag yr hoffwn fod wedi ei wneud.

Materion i'w penderfynu

10. Mae'r materion i'w penderfynu wedi eu cynnwys yng ngorchymyn y Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol wedi'r gwrandawriad rhagarweiniol [t.253-258]. Rwy'n eu dyfynnu yn y Saesneg gwreiddiol :
11. "[1.] The Respondent bears the burden of proving on the balance of probabilities, that the Claimant was dismissed for the potentially fair reason of misconduct [para 8]..
12. [2.] If the Respondent does persuade the tribunal that its decision maker had a genuine belief in the claimant's misconduct and dismissed for that potentially fair reason, the tribunal must go on to consider the general reasonableness of that dismissal [para 9]..
13. [3.] ...the tribunal will focus its enquiry on whether there was a reasonable basis for the respondent committee's belief and test the reasonableness of the investigation [para 11]..
14. When it comes to assessing the reasonableness of this particular decision to dismiss the tribunal's attention will be focussed on two issues in particular...
15. [4.]..The first is the claimant's criticism of the length of time it took the respondent committee to complete its investigation and provide her with a summary of the case against her, giving her inadequate time to respond.
16. [5.] The second concerns the role of Ms Davies. The claimant considers that Ms Davies was her primary accuser, the chief investigator and the decisionmaker all rolled into one, and was therefore not impartial." [para 14]
17. Yn ystod y gwrandawriad daeth yn glir bod mater arall yn berthnasol i'r penderfyniad am resymoldeb y diswyddo. Er cysonder gyda'r materion uchod rwy'n ei osod allan yn Saesneg sef:
18. [6.] Whether the refusal to call witnesses requested to the disciplinary hearing rendered the dismissal unfair?

Canfyddiadau Ffeithiol

19. Mae'r Atebydd yn elusen sy'n rhedeg cylch meithrin iaith Gymraeg yn Aberystwyth ar gyfer plant 2-4 mlwydd oed. Fel arfer mai 4-5 o staff yn gweithio yn y Cylch ond mae'r nifer ar unrhyw ddiwrnod penodol yn

- dibynnu ar y nifer o blant sydd yn y Cylch ar y diwrnod hynny. Mae'r Cylch wedi ei leoli mewn un ystafell tua maint stafell fyw fawr.
20. Roedd yr Hawlydd wedi gweithio yn y Cylch ers 28ain Tachwedd 2011 fel Cynorthwydd Meithrin.
 21. Yn ôl yr Atebydd cafodd yr Hawlydd ei diswyddo am gamymddwyn difrifol sef bod dan ddylanwad alcohol yn y gwaith. Mae Cyfundrefn Ddisgyblaeth y Cylch yn dweud yn benodol bod "being under the influence of alcohol" yn esiampl o gamymddwyn difrifol "which could lead to summary dismissal" [t.67]. Yn ôl yr Atebydd roedd y diswyddiad yn deillio o ddigwyddiadau ar 4ydd a'r 5ed o Dachwedd 2015.
 22. Yn ôl yr Hawlydd y gwir reswm am y diswyddiad oedd bod yr Atebydd am gael gwared ohoni oherwydd ei habsenoldebau yn gysylltiedig ag afiechyd. Mae'r Hawlydd yn honni mai cyfarfod ym mis Hydref 2015 oedd wrth wraidd y diswyddiad felly clywais dystiolaeth am y cyfarfod hwnnw. *Y cyfarfod ym mis Hydref 2015*
 23. Digwyddodd y cyfarfod rhwng yr Hawlydd a Heulwen Davies ar 12 Hydref 2015. Y cefndir oedd bod yr Hawlydd wedi bod yn absennol o'r gwaith oherwydd afiechyd. Honnai'r Hawlydd i Heulwen Davies ofyn am gynnal cyfarfod trwy Carys Lloyd. Awgryma i Heulwen Davies geisio ei pherswadio yn y cyfarfod i leihau nifer ei horiau, cymryd absenoldeb afiechyd neu roi fyny ei horiau yn gyfan gwbl er mwyn galluogi Alaw Davies i gymryd ei lle.
 24. Mae'r Atebydd yn gwadu hynny. Yn hytrach tystiolaeth Ms Davies yw i'r Hawlydd ofyn am gyfarfod. Dywed Ms Davies iddi wneud yn glir yn y cyfarfod ei bod yn eiddgar i roi pob cymorth i'r Hawlydd i'w galluogi i barhau i weithio yn y Cylch tra'n ymdopi gyda'i hafiechyd. Cytuna Ms Davies bod hynny wedi cynnwys trafodaeth am leihau oriau'r Hawlydd neu'r posibilrwydd o gymryd absenoldeb afiechyd ond tystiodd mai awgrymiadau am fesurau dros dro i helpu yr Hawlydd oedd y rheini. Gwadodd iddi awgrymu y dylai'r Hawlydd ymddiswyddo neu mewn unrhyw ffordd iddi geisio gorfodi'r Hawlydd i adael ei swydd.
 25. Yma mae gwrth-ddweud rhwng tystion ynglŷn â digwyddiad. Mae gofyn i'r Tribiwnlys benderfynu rhwng dwy fersiwn o'r hyn a ddigwyddodd yn y cyfarfod. Yn anffodus 'doedd dim nodiadau o'r cyfarfod.
 26. Mae'r Hawlydd yn honni bod y ffaith i Alaw Davies gymryd ei lle yn y Cylch yn syth wedi ei diswyddiad yn cefnogi ei honiad bod yr Atebydd wedi bod yn edrych am ffordd o gael gwared â'r Hawlydd ers o leiaf mis Hydref 2015. Nid wy'n derbyn hynny. Byddai angen rhywun i wneud y gwaith yn absenoldeb yr Hawlydd yn enwedig o gofio bod rhaid i'r Cylch gadw at reolau ynglŷn â chymhareb staff a phlant. Mae'n ymddangos i mi yn naturiol y byddai'r Cylch yn troi at rywun cyfarwydd fel Alaw Davies a oedd wedi bod yn gweithio i'r Cylch o dro i dro fel gweithiwr "banc" er mwyn llenwi'r bwlch.
 27. Roedd yn ymddangos i mi bod negeseuon testun a Facebook yn y bwndel dogfennau yn cadarnhau tystiolaeth Ms Davies yn hytrach na'r Hawlydd. Mae neges Facebook Carys Lloyd i Heulwen Davies ar y 9fed o Hydref

- 2015 [t.142] yn dweud bod “[yr Hawlydd] wedi siarad ar y ffôn gen i heno ac mae hi wedi son bod hi meddwl siarad â chi i esbonio ei chyflwr, a nes cytuno gyda hi bydde well iddi siarad ac esbonio, felly gobeithio fydd hi mewn cysylltiad.” Ar yr 11eg o Hydref mae sgwrs neges destun rhwng Carys Lloyd a’r Hawlydd [t.56-57]. Mae’r sgwrs yn cynnwys neges oddi wrth Carys Lloyd yn dweud “Wna i holi i Heulwen trefnu i cysylltu a ti i cael chat” a “Credw bydd well i ti cwrdd lan i siarad â Heulwen fel o ti gweud”. Mae’r rheiny’n cadarnhau i mi mai’r Hawlydd ofynnodd am gyfarfod gyda Heulwen Davies yn hytrach na’r ffordd arall o gwmpas.
28. Yn fwy pwysig, nid wyf yn derbyn bod yr Atebydd wedi ceisio cael gwared â’r Hawlydd yn y cyfarfod trwy ei hannog i ymddiswyddo. Wedi clywed tystiolaeth yr Hawlydd a Heulwen Davies mae’n well gennyf dystiolaeth yr Atebydd am yr hyn a ddigwyddodd ac a ddywedwyd yn y cyfarfod. Roedd tystiolaeth Heulwen Davies yn glir a diffuant ac yn gyson er croesholi gan yr Hawlydd.
29. Yn ogystal â hynny roedd yn y bwndel dogfennau [t. 141A] neges destun i Heulwen Davies oddi wrth yr Hawlydd am 18:53 ar brynhawn y cyfarfod. Dywed y neges “Diolch am y gwrando, ac am y lifft x [h.y. cusan]”. Roedd yn anodd deall pam fyddai’r Hawlydd wedi anfon y neges destun yma petai Heulwen Davies wedi treulio’r cyfarfod yn ceisio gwrthio’r Hawlydd o’i swydd. Eglurodd yr Hawlydd iddi fod yn hapus gyda’r cyfarfod pan anfonodd y neges ond iddi newid ei meddwl yn hwyrach wrth ail-feddwl am yr hyn a ddywedwyd. Nid wyf yn derbyn byddai’r Hawlydd wedi danfon y neges destun yma petai’r cyfarfod wedi digwydd fel y tystiodd. Rwy’n canfod bod y neges destun yn cadarnhau tystiolaeth Ms Davies.
30. Rwy’n canfod, felly, mai ymgais gan yr Atebydd i roi cymorth i’r Hawlydd i ymdopi ag effeithiau ei phroblemau iechyd oedd y cyfarfod yn Hydref 2015 yn hytrach nag ymgais i gael gwared ohoni er mwyn rhoi ei swydd i Alaw Davies.

4ydd o Dachwedd

31. Yn ôl yr Atebydd, ar Ddydd Mercher y 4ydd o Dachwedd 2015 mae dechrau’r digwyddiadau a arweiniodd at ddiswyddo’r Hawlydd. Mae anghytundeb sylfaenol rhwng yr Hawlydd a’r Atebydd ynglŷn â digwyddiadau’r diwrnod.
32. Yn ôl Heulwen Davies y bore hwnnw cafodd alwad ffôn oddi wrth Eirwen Hughes, Swyddog Cymorth Mudiad Meithrin ar gyfer Gogledd Ceredigion. Roedd hi yn ei thro wedi cael galwad ffôn gan Sioned Evans, Rheolwraig Camau Bach, meithrinfa sy’n rhannu adeilad â’r Cylch. Roedd Ms Evans yn ffonio oherwydd bod Nia Harries a oedd yn gweithio ar dderbynfa Camau Bach wedi ei ffonio hi i adrodd bod yr Hawlydd wedi cyrraedd yn y gwaith yn aroglu o alcohol a ddim yn siarad yn glir. Yn ôl y datganiad roddodd Nia Harries i’r ymchwiliad disgyblaeth [t.154A], sylwodd ar hyn oherwydd bod yr Hawlydd wedi gorfod benthg yr allwedd sbâr mae Camau Bach yn gadw ar ran y Cylch. Gofynnodd Ms Evans i Ms Hughes gysylltu â Ms Davies gan mai Ms Davies oedd cadeirydd y Pwyllgor.

33. Eglurodd Ms Davies nad oedd hi yn y Cylch bore hwnnw. Nid oedd hi'n ymweld â'r Cylch yn rheolaidd gan mai aelod o'r Pwyllgor oedd hi yn hytrach na rheolwr y Cylch o ran materion bob dydd.
34. Wedi derbyn yr alwad tua 10 o'r gloch tystiolaeth Heulwen Davies yw iddi ffonio Carys Lloyd yn y Cylch i egluro'r sefyllfa. Dywed mai ei phrif bwrpas wrth wneud hynny oedd sicrhau diogelwch y plant yn y Cylch. Mae tystiolaeth Ms Lloyd yn cadarnhau iddynt gael y sgwrs.
35. Tystiodd Caryl Lloyd i Ms Davies gyrraedd y Cylch tua 10.10 o'r gloch. Tystiodd Ms Davies ei bod (wedi sgwrs fer gyda Ms Lloyd) wedi gofyn i'r Hawlydd am gael sgwrs breifat. Yn ôl ei thystiolaeth hi fe gyfarfu â'r Hawlydd yn swyddfa Sioned Evans yn Camau Bach. Stafell fach yw honno a thystiodd Ms Davies bod yr Hawlydd yn goch ei hwyneb, yn slyrio'i geiriau, yn ddryslyd ac yn aroglï o alcohol. Dywed mai ei barn hi oedd bod yr Hawlydd dan ddylanwad alcohol.
36. Yn ôl Heulwen Davies, adroddodd yr honiadau ac ymatebodd yr Hawlydd yn amddiffynol a dagreuol gan ddweud ei bod hi'n llwrymwrthodwr a nas gallai yfed alcohol petai eisiau oherwydd ei bod yn cymryd meddyginiaethau. Gan fod yr Hawlydd yn ddagreuol, gofynnodd Heulwen Davies i Carys Lloyd ymuno â'r cyfarfod yn y swyddfa. Tystiodd Carys Lloyd tra ei bo hi yn y cyfarfod i Ms Davies ddweud bod cwyn wedi cael ei wneud bod yr Hawlydd dan ddylanwad alcohol ac i'r Hawlydd dderbyn awgrymiad Ms Davies y dylai'r Hawlydd fynd adref.
37. Tystiodd Heulwen Davies iddi hi yrru'r Hawlydd adref ar ôl y cyfarfod. Tystiodd ar lafar bod arogl alcohol yn gryf yn y car yn ystod y daith. Yn ôl Heulwen Davies roedd yr arogl alcohol yn dal yn gryf yn ei char yn hwyrach yn y prynhawn pan roddodd lifft i gyfaill, gymaint felly i beri i'w ffrind i ofyn a oedd hi wedi cynnal parti yn y car.
38. Oni bai am dderbyn ei bod hi wedi gorfod cael cymorth Nia Harries i agor drws y Cylch ar fore'r 4ydd roedd tystiolaeth yr Hawlydd yn sylfaenol wahanol. Yn ogystal â gwadu ei bod dan ddylanwad alcohol, gwadodd iddi gyfarfod â Ms Davies ar y 4ydd a thystiodd mai ei merch, Ms Cheryl Davies, roddodd lifft adref iddi. Ei honiad hi yw na chlywodd am yr honiadau amdani nes galwad ffôn gan Heulwen Davies ar Ddydd Llun y 9fed o Dachwedd.
39. Tystiodd yr Hawlydd ei bod yn teimlo'n arbennig o anghyfforddus ar y 4ydd oherwydd ei chlefyd coluddyn llidus a'i bod felly wedi gofyn caniatâd Carys Lloyd i gael gadael yn gynnar. Honnodd iddi ofyn am ganiatâd i ffonio ei merch, Ms Cheryl Davies, a gofyn iddi ei phigo i fyny o'r gwaith. Honnodd iddi adael y Cylch tua 11 o'r gloch heb unrhyw gyfarfod gyda Heulwen Davies.
40. Nid oedd datganiad ysgrifenedig Cheryl Davies yn cadarnhau tystiolaeth ei mam am y pwynt yma ond yn ei thystiolaeth ar lafar dywedodd ei bod wedi rhoi lifft adref i'w mam ar y 4ydd. Dan groesholi cydnabyddodd nad oedd modd iddi ddweud oedd wedi rhoi lifft i'w mam ar unrhyw ddiwrnod penodol gan ei bod yn gwneud hynny yn aml.

41. Mynnodd Cheryl Davies na fyddai ei mam wedi derbyn lifft gan aelod o'r Pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r neges destun oddi wrth yr Hawlydd yn sgil cyfarfod 12 Hydref a grybwyllwyd eisoes yn dangos yn glir bod Heulwen Davies wedi rhoi lifft i'r Hawlydd ar o leiaf un achlysur.
42. Mae'n anffodus nad oes nodyn o'r cyfarfod ar y 4ydd. Nid oedd chwaith dystiolaeth ysgrifenedig o adeg y cyfarfod sy'n adrodd yr hyn ddigwyddodd yn y cyfarfod, e.e. ar ffurf e-bost, neges destun neu adroddiad arall oddi wrth Heulwen Davies i aelodau eraill y Pwyllgor. Rwy'n nodi bod llythyr yr Atebydd i'r Hawlydd ar y 26ain o Dachwedd 2015 [t.147] yn cyfeirio yn ôl at gyfarfod ar y 4ydd o Dachwedd ond nid yw'n rhoi unrhyw fanylion o'r cyfarfod.
43. Ni heriodd yr Hawlydd (naill ai yn y gwrandawriad nag yn ei dadleuon ysgrifenedig) dystiolaeth Nia Harries yn ei datganiad i'r ymchwiliad disgyblaeth i Ms Harries ffonio Sioned Evans ar fore'r 4ydd oherwydd bod yr Hawlydd yn aroglu o alcohol. Ni heriodd chwaith dystiolaeth Sioned Evans iddi hi alw Eirwen Hughes a bod Ms Hughes yn mynd i alw Ms Davies fel cadeirydd y Pwyllgor. [Mae datganiadau Ms Harries a Ms Evans i'r ymchwiliad disgyblaeth [yn y bwndl dogfennau t.154-155]. Wrth ateb fy nghwestiwn am hyn yn y gwrandawriad tystiodd yr Hawlydd nad oedd erioed wedi cael unrhyw broblem gyda Nia Harries ac na allai feddwl am reswm pam byddai'n codi honiadau anwir yn ei herbyn.
44. Tra'n cydnabod nad yr Atebydd yw cyflogwr Eirwen Hughes mae hi'n anffodus na chlywais dystiolaeth ganddi am yr hyn a ddigwyddodd (ar y 4ydd ac wedyn). Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos i mi yn fwy tebygol na pheidio byddai galwad Ms Evans am honiad Ms Harries wedi achosi i Eirwen Hughes gysylltu â Heulwen Davies ac y byddai hi yn ei thro wedi galw cyfarfod brys gyda'r Hawlydd i drafod yr honiad.
45. O ran y dystiolaeth ar lafar, roedd yn well gen i dystiolaeth Heulwen Davies a Ms Lloyd na thystiolaeth yr Hawlydd a'i merch. Roedd dystiolaeth Ms Heulwen Davies dan groesholi yn glir a chyson. Roedd hyn yn llai gwir am dystiolaeth yr Hawlydd. Er bod dystiolaeth Ms Lloyd yn betrusgar am rai materion, roedd yn gyson yn ei thystiolaeth am alwad Heulwen Davies a'r cyfarfod pan gafodd ei herio dan groesholi.
46. Wedi ystyried y dystiolaeth yn ei gyfanrwydd rwy'n canfod i'r cyfarfod rhwng Heulwen Davies a'r Hawlydd (a Carys Lloyd) ddigwydd ar y 4ydd fel tystiodd Ms Davies a Ms Lloyd.
47. Roedd mesur o wrth-ddweud hefyd ynglŷn â galwad ffôn tua 5.30 o'r gloch ar y 4ydd. Tystiodd Ms Davies iddi siarad ar y ffôn gyda'r Hawlydd oedd wedi cynhyrfu ac yn rhedeg ei geiriau i'w gilydd. Dywed Ms Davies iddi ddweud wrth yr Hawlydd am beidio dod i'r gwaith y diwrnod dilynol ac iddi wedyn ffonio Carys Lloyd i drefnu i rywun gymryd lle'r Hawlydd. Dan groesholiad dywedodd yr Hawlydd nad oedd yn cofio'r alwad. Nid oedd yn gwadu bod yn bosibl bod yr alwad wedi digwydd. Rwy'n derbyn dystiolaeth Ms Davies am yr alwad hon.
48. Er mwyn cyfleuster rwy'n nodi yma yr hyn ddywedodd a Carys Lloyd a Vicki Lowden am yr Hawlydd yn eu datganiadau i'r ymchwiliad

disgyblaeth. Yn ôl Vicky Lowden [adroddiad Ch] roedd hi'n hawdd gweld bod yr Hawlydd yn "rocio nôl a mlaen pan sefyll, dim yn siarad yn glir, llygaid yn "glazed" ac yn gwynto bach o alcohol". Yn ôl Carys Lloyd [adroddiad C] wedi cael galwad Heulwen Davies y bore hwnnw aeth sgwrsio gyda'r Hawlydd a "na pryd nes i tybio fy mod yn aroglu ei bod wedi bod yn yfed, roedd hi ddim yn sigledig ar y pryd on sylwais pan aeth hi nôl ffrwythau o'i bag yn y cyntedd bod ei choesau yn rocian braidd". Yn ôl yr Hawlydd mae'n arwyddocaol na ddywedodd Carys Lloyd iddi sylwi hyn nes iddi siarad â Heulwen Davies ar y ffôn er iddi sgwrsio gyda hi yn gynt y bore hwnnw.

Y 5ed o Dachwedd

49. Tystiodd yr Hawlydd iddi ofyn i Carys Lloyd ar y 4ydd a fyddai'n bosibl iddi beidio gweithio ar y 5ed. Mae datganiad Carys Lloyd i'r ymchwiliad disgyblaeth [t.156] yn cytuno i'r Hawlydd ofyn fyddai'n bosibl i Eleri Davies ddod i mewn ar y Dydd Iau yn ei lle. Yn ôl Carys Lloyd y rheswm roddodd yr Hawlydd oedd ei bod yn bwriadu mynd ar y bws i weld ei phartner a oedd yn yr ysbyty yng Nghaerfyrddin wedi cael damwain car. Yn ôl yr Hawlydd gofyn oherwydd effaith ei hafiechyd a wnaeth a honnodd nad oedd ei phartner wedi cael damwain car. Derbyniodd yr Hawlydd ei bod yn bosibl bod Carys Lloyd wedi camddeall y rheswm am ei chais.
50. Beth bynnag am hynny, nid oedd yr Hawlydd i fod yn gweithio ar y 5ed. Er hynny mae'r partïon yn cytuno iddi fynd i'r Cylch yn y bore ac aros yno am ryw 10 munud. Yn ôl yr Hawlydd aeth i wneud yn siŵr bod digon o staff ar gael gan ei bod yn gwybod bod Carys Lloyd i ffwrdd mewn angladd teuluol ac nad oedd Eleri Davies bob amser ar amser.
51. Mae cytundeb i'r Hawlydd sgwrsio â dau riant. Rhoddodd un o'r rhieni (Bethan Rees) ddatganiad i'r ymchwiliad disgyblaeth [t.157]. Yn ôl y datganiad cysylltodd Ms Rees ag aelod o'r Pwyllgor (Kate Woodward) ar fore'r 5ed oherwydd ei bod wedi aroglu alcohol ar anadl yr Hawlydd. Tystiodd Heulwen Davies i Kate Woodward ei galw hi ar y ffôn tua 9-9.30 o'r gloch y bore hwnnw ynglŷn ag adroddiad Bethan Rees. O ganlyniad dywed Ms Davies iddi gysylltu ag Eirwen Hughes o'r Mudiad am gyngor pellach. Wedi gwneud hynny, tystiodd iddi ffonio'r Hawlydd a dweud wrthi y byddai yn cymryd cyngor pellach gan y Mudiad yn sgil yr honiadau difrifol a dderbyniwyd. Ni wnaeth yr Hawlydd wadu yn benodol i'r alwad ffôn yma ddigwydd neu godi sialens i dystiolaeth Ms Davies am ei chynnwys.
52. Yn ôl y datganiad a roddodd Vicki Lowden, un arall of staff y Cylch, i'r ymchwiliad disgyblaeth [adroddiad Ch -t.157A] ar fore'r 5ed tra yn y Cylch roedd arogl cryf o alcohol ar yr Hawlydd a doedd hi "ddim yn sefyll yn dda, llygaid dal yn glazed a llais yn od". Dywed datganiad Eleri Davies (un arall o'i chyd-weithwyr) "nad oedd [yr Hawlydd] yn dda" ar y bore hwnnw ac "rwy'n siŵr fy mod wedi aroglu rhywbeth dieithr a berodd ychydig o sioc imi gan wneud i fi feddwl "tybed"" [adroddiad D i'r ymchwiliad disgyblaeth t.158A].

53. Nid oedd Carys Lloyd yn y Cylch ond tystiodd yn ei datganiad i'r ymchwiliad disgyblu [adroddiad C] ei bod "yn debyg bod Rhian wedi dod mewn yn gwynto eto fatha ei bod wedi yfed ac yn slyrio geiriau". Yn ei thystiolaeth lafar i'r tribiwnlys eglurodd Carys Lloyd mai dyma'r hyn ddywedodd Vicki Lowden wrthi pan ddaeth i'r Cylch i weithio ar Ddydd Gwener y 6ed o Dachwedd. Yn ei thystiolaeth lafar cadarnhaodd Ms Lloyd hefyd bod yr "it was likely" yn y cyfieithiad Saesneg o ddatganiad C yn deillio o gam-gyfieithi "mae'n debyg" yn y ferswin Gymraeg ac mai "apparently" oedd y cyfieithiad cywir.

Dydd Llun 9fed o Dachwedd

54. Dydd Llun oedd diwrnod gwaith nesaf yr Hawlydd. Mae cytundeb iddi weithio'r bore fel arfer ac i Heulwen Davies ei galw ar y ffôn yn y prynhawn i ddweud wrthi ei bod yn cael ei hatal o'r gwaith tra bod yr Atebydd yn ymchwilio i'r honiadau yn ei herbyn. Dywed yr Hawlydd mai dyma'r tro cyntaf iddi gael gwybod am yr honiadau.
55. Rwyf eisoes wedi canod bod Ms Davies wedi cyfarfod â'r Hawlydd ar y 4ydd i drafod honiad Ms Haries. Mae'n gyfleus i ddelio yma ag un o ddadleuon yr Hawlydd o blaid ei fersiwn hi o'r hyn ddigwyddodd ar y 4ydd. Mae hi'n dadlau ei bod yn anghredadwy y byddai'r Atebydd yn caniatáu iddi weithio ar y 9fed os oeddynt eisoes wedi cyfarfod â hi i ar y 4ydd. Os oedd honiadau mor ddifrifol yn ei herbyn, byddent wedi defnyddio unrhyw gyfarfod cyn y 9fed i'w hatal rhag gweithio er mwyn diogelu'r plant. Yn ôl y ddadl hon mae'r ffaith na wnaethant ei hatal cyn y 9fed yn dystiolaeth na ddigwyddodd cyfarfod cynt.
56. Rwy'n derbyn ei bod yn syndod na phenderfynwyd y dylid atal yr Hawlydd rhag gweithio naill ai yn y cyfarfod gwreiddiol gyda Heulwen Davies ar y 4ydd neu yn ystod y galwadau ffôn dilynol gyda hi ar y 4ydd a'r 5ed. Roedd yr honiadau yn ddifrifol gyda'r potensial i effeithio ar ddiogelwch y plant yn y Cylch. Tystiolaeth Ms Davies oedd nad oedd rheswm am atal yr Hawlydd rhag gweithio ar y Dydd Llun gan nad oedd tystiolaeth ei bod dan ddylanwad alcohol ar y Dydd Llun. Nid yw'n glir pa gamau a gymerodd yr Atebydd i wneud yn siŵr mai dyna'r sefyllfa cyn dechrau diwrnod gwaith y Cylch ar Ddydd Llun y 9fed.
57. Mae'n ymddangos i mi mae'r rheswm am oedi cyn atal yr Hawlydd rhag gweithio oedd nad oedd Ms Davies yn glir pa gamau oedd yn addas a chyfreithiol i'r Atebydd eu cymryd yn sgil yr honiadau. Yn ôl ei thystiolaeth ei hun (a dadleuon ysgrifenedig yr Atebydd) nid oedd ganddi brofiad o gynnal gweithdrefn disgyblu ac ni chafodd hyfforddiant perthnasol. Yn ôl tystiolaeth Ms Davies y 9fed oedd y tro cynaf iddi hi gyfarfod ag Eirwen Hughes i drafod y mater yn llawn. Mae'n ddealladwy (heb fod o reidrwydd yn ganmoladwy) ei bod yn aros am gyngor y Mudiad cyn cymryd cam difrifol megis atal un aelod o staff y Cylch o'i gwaith.
58. Mae Cyfundrefn Disgyblaeth y Cylch [t.137-140] yn cadarnhau bod hawl gan Gadeirydd y Cylch i atal rhag gweithio "for a brief period while the investigation is concluded". Mae hefyd yn dweud "The Committee will

send a letter to the individual confirming the allegations against him/her and outlining the conditions of the suspension. The Committee will review the suspension weekly to ensure it does not continue unnecessarily.” Nid yw'r gyfundrefn yn penodi pryd y dylid anfon y llythyr i gadarnhau'r ataliad ond mae'n ymddangos i mi fyddai cyflogwr rhesymol yn ei ddanfôn yn syth wedi i'r ataliad ddechrau.

59. Nid oes cofnod ysgrifenedig a welais i o'r alwad ar y 9fed. Nid oedd chwaith lythyr yn cadarnhau'r ataliad a'r honiadau tan 26ain o Dachwedd 2015.

Yr ymchwiliad

60. Yn ôl Heulwen Davies fe'i cynghorwyd gan y Mudiad i gynnal ymchwiliad i'r honiadau. Tystiodd Carys Lloyd i Eirwen Hughes gynnal cyfarfod gyda staff y Cylch ben bore a'r Ddydd Mercher 11eg o Dachwedd. Yn ôl Ms Lloyd eglurodd Ms Hughes ei bod wedi derbyn cwyn fod aelod o staff wedi bod yn yfed a gofynnodd iddynt anfon unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig am yr hyn ddigwyddodd ar y 4ydd a'r 5ed i Heulwen Davies.
61. Yn y bwndel dogfennau roedd 6 datganiad neu adroddiad wedi labeli A-Dd. Datganiadau Nia Harries a Sioned Evans oedd adroddiad A ac adroddiad B. Datganiad Caryl Lloyd oedd adroddiad C. Roedd dau ddatganiad gan aelodau staff o'r Cylch (adroddiad Ch gan Vicky Lowndes ac adroddiad D gan Eleri Davies). Adroddiad Dd oedd datganiad Bethan Rees, y rhiant gafodd sgwrs gyda'r hawlydd ar y 5ed ac arogl alcohol arni. Nid oedd datganiad gan Heulwen Davies ei hun ynglŷn yr hyn ddigwyddodd ar y 4ydd.
62. Yn ôl Heulwen Davies, derbyniodd ddatganiad e-bost gan Carys Lloyd a datganiadau mewn llawysgrifen gan y gweddill. Teipiodd Kate Woodward y fersiynau Cymraeg oedd yn y bwndel ac yn hwyrach fe baratodd y Mudiad gyfieithiadau Saesneg o bob adroddiad. Roedd y datganiadau yn y bwndel wedi'i harwyddo a'i dyddio ym mis Ionawr 2016. Tystiodd Heulwen Davies ar lafar i'r adroddiadau gael eu casglu erbyn 16eg o Dachwedd a'u bod yn barod erbyn diwedd mis Tachwedd [para 26(ii) o'i datganiad]. Dwi'n deall hynny i feddwl bod yr adroddiadau gwreiddiol wedi eu derbyn erbyn 16 o Dachwedd ac wedi eu teipio i'w ffurf bresennol erbyn diwedd mis Tachwedd.
63. Un pwynt a godwyd gan yr Hawlydd yw nad oes datganiadau gan bob tyst i'r digwyddiadau oedd yn sail i'r honiadau. Yn benodol, nid oedd adroddiad gan bob aelod staff a oedd yn gweithio yn y Cylch ar y 4ydd a'r 5ed. Gofynnais i Ms Davies yn y grandawriad pa gamau a gymerodd i sicrhau eu dystiolaeth neu i ofyn am fwy o fanylion lle'r oedd amwyster neu ddiffyg eglurhad yn adroddiadau A-Dd. Ei hateb hi oedd na chymerodd gamau felly - ei deall hi oedd mai casglu'r dystiolaeth "crai" oedd ei thasg hi.
64. Ar 16eg o Dachwedd cynhaliwyd cyfarfod ymchwilio. Yn bresennol roedd yr Hawlydd a'i merch, Heulwen Davies, Eirwen Hughes a Kate Woodward. Kate Woodward yw ysgrifennydd y Pwyllgor a hi oedd yn gyfrifol am greu

- cofnodion y cyfarfod a oedd yn y bwndel dogfennau [t.143]. Parodd y cyfarfod llai na hanner awr ac fe'i cynhaliwyd yn Saesneg. Ni chafodd yr Hawlydd weld adroddiadau A-Dd yn y cyfarfod. Yn anffodus nid yw'r cofnodion yn cyfeirio yn benodol at fanylion yr honiadau, e.e. trwy grybwyll pa ddyddiau roedd yr honiadau yn cyfeirio atynt
65. Nid oedd yn y bwndel lythyr ffurfiol yn gwahodd yr Hawlydd i'r cyfarfod ar y 16eg ac yn egluro'r honiadau. Mae'n ymddangos bod y cyfathrebu rhwng yr Hawlydd a'r Atebydd yn dueddol o fod trwy negeseuon testun. Nid oedd copi o neges destun yn gwahodd yr Hawlydd i'r cyfarfod. Beth bynnag am hynny mae'n amlwg i mi bod yr Hawlydd yn ymwybodol o natur yr honiadau yn ei herbyn erbyn yr 16eg o Dachwedd. Mae cofnodion y cyfarfod yn cyfeirio ati'n gwadu ei bod wedi yfed alcohol ers blynyddoedd ac yn dweud ei bod wedi cysylltu â chyfreithiwr ar y 9fed o Dachwedd oherwydd iddi deimlo bod yr honiadau yng ngeiriau'r cofnodion yn "defamation of character". Yn ôl y cofnodion, pan ofynnwyd iddi pam fyddai rhywun yn gwneud y fath honiadau amdani, ei hymateb oedd "God knows". Yn ystod y broses ddisgyblu, gwadodd yr Hawlydd y byddai'n defnyddio'r fath ymadrodd ond nid yw'n ymddangos i mi bod hyn yn berthnasol i'r materion rwy'n penderfynu arnynt. Yr hyn sy'n glir yw bod natur yr honiadau wedi cael eu hegluro a'u gwadu ond na chafodd yr Hawlydd fanylion yr honiadau, e.e. trwy rannu'r datganiadau A-Dd.
66. Mae Cyfundrefn Disgyblaeth ysgrifenedig y Cylch [t.137] yn egluro'r camau ddylid eu cymryd wrth ymchwilio i honiadau:
- "The Committee will:
- ask each individual involved in the incident for a written statement at once, before memories fade.
 - decide upon one or two members of the Committee to hold the investigation, gathering any evidence associated with the incident
 - hold an investigative meeting with the witnesses and the members of staff involved"
67. Nid oes dadl na ofynnwyd i'r Hawlydd am ddatganiad ysgrifenedig yn yr achos hwn. Tystiolaeth Heulwen Davies oedd bod cofnod y cyfarfod ymchwilio [t.163] yn cyfateb i ddatganiad ysgrifenedig gan yr Hawlydd. Nid yw'r cofnod yn cynnwys y math o fanylion am yr hyn ddigwyddodd ar y 4ydd a'r 5ed yn ôl yr Hawlydd y byddwn i'n disgwyl gweld mewn "datganiad".
68. Mae'r cofnodion yn dangos yn glir nad oedd unrhyw dystion ond yr Hawlydd yn y cyfarfod ymchwilio.
69. O ran p'un ai gafodd "each individual involved in the incident" ei gofyn am ddatganiad ysgrifenedig, y dystiolaeth oedd bod y staff wedi eu gofyn i wirfoddoli datganiadau ysgrifenedig gyda'i gilydd yn y cyfarfod gydag Eirwen Hughes ar yr 11eg o Dachwedd. Ni awgrymodd yr Atebydd i gamau pellach gael eu cymryd i ofyn i'r rhai na wirfoddolodd ddatganiadau i wneud hynny neu i egluro elfennau o'r datganiadau a roddwyd oedd yn

aneglur neu'n gwrth-ddweud. Fe dystiodd Heulwen Davies yn ddi-her i Kate Woodward ofyn i'r ail riant a siaradodd gyda'r Hawlydd ar y 5ed o Dachwedd roi datganiad ond i'r rhiant wrthod gwneud hynny.

Ar ôl y cyfarfod ymchwilio

70. Roedd oedi rhwng y cyfarfod ymchwilio a'r gwahoddiad i'r Hawlydd i wrandawriad disgyblu. Daeth hwnnw mewn llythyr ar y 25ain o Ionawr 2016 oddi wrth Heulwen Davies, h.y dros ddeufis ar ôl y cyfarfod ymchwilio. Fel nododd y Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol yn y gwrandawriad rhagarweiniol [t.256, para 14], un o ddadleuon yr Hawlydd yw bod y diswyddo'n annheg oherwydd yr amser a gymerodd yr Atebydd i gynnal y broses ddisgyblu a gwneud y penderfyniad i ddiswyddo.
71. Mae'n ymddangos i mi bod cyfathrebu rhwng yr Hawlydd a'r Atebydd wedi'r cyfarfod ymchwilio naill ai mewn person neu trwy negeseuon testun nad oeddynt yn y bwndel dogfennau. O ran cyfathrebu ffurfiol rhyngddynt, y cam nesaf oedd llythyr yn Saesneg ar 26ain o Dachwedd 2015 oddi wrth Heulwen Davies yn cadarnhau "Suspension pending disciplinary investigation". Nid yw'r llythyr yn rhoi manylion am yr honiadau yn erbyn yr Hawlydd ac eithrio dweud ei bod yn cael ei hatal rhag gweithio "pending investigations into an allegation of gross misconduct specifically that you have attended work under the influence of alcohol". Nid yw'r llythyr yn cyfeirio at y dyddiadau, na'n cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol am sail yr honiadau, e.e. trwy gynnwys copiâu neu grynodedau o'r adroddiadau A-Dd a oedd wedi eu casglu eisoes.
72. Nid oes dadl na anfonwyd cofnodion y gwrandawriad ymchwilio gyda'r llythyr gwahardd. Yn ôl tystiolaeth Heulwen Davies nid oedd y Mudiad wedi dweud wrthi fod angen anfon copi o'r cofnodion i'r Hawlydd. Dim ond pan dderbyniodd y llythyr 25ain o Dachwedd 2016 yn ei gwahoddi i wrandawriad disgyblu ar 28 Ionawr [t. 165-166] y cafodd yr Hawlydd nodiadau'r cyfarfod ymchwilio.
73. Yn ei datganiad tribiwnlys cynigiodd Heulwen Davies dri rheswm am yr oedi am ddeufis rhwng y cyfarfod ymchwilio a'r llythyr gwahoddiad:
 - ei bod yn aros am atebion oddi wrth feddyg yr Hawlydd
 - bod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd wedi peri oedi
 - ei bod hi wedi gorfod cael cyngor gan y Mudiad ar wahanol faterion.
74. Y rheswm cyntaf oedd ei bod yn aros am atebion gan feddyg yr Hawlydd i gwestiynau ysgrifenedig anfonodd ato yn sgil y cyfarfod ymchwilio. Yn y cyfarfod hwnnw cyflwynodd yr Hawlydd adroddiad meddygol i egluro ei hanes meddygol ac yn benodol y ffaith ei bod yn cymryd meddyginiaeth pwysau gwaed. Ar brynawn y cyfarfod, ysgrifennodd Ms Davies at y meddyg i ofyn a fyddai'r feddyginiaeth yn achosi i'r Hawlydd aroglu o alcohol, bod yn sigledig ar ei thraed neu fod yn ddryslyd. Roedd y llythyr hefyd yn gofyn a oedd esboniad eraill am y cyflyrau hyn ac yn gofyn a oedd yr Hawlydd yn ffit i weithio gyda phlant.

75. Ar y 18fed o Dachwedd ysgrifennodd y meddyg at Ms Davies ond mae'n ymddangos i mi mai ymateb i ymweliad gan yr Hawlydd ar y 18fed yn hytrach na llythyr Ms Davies a wna'r llythyr hwnnw. Nid yw'r llythyr yn ateb cwestiynau penodol Ms Davies. Yn hytrach mae'n dweud nad oes yn hanes meddygol yr Hawlydd unrhyw beth i awgrymu "any misuse of alcohol or alcohol dependency". Mae hefyd yn cadarnhau nad oedd profion gwaed ym mis Mawrth 2015 yn awgrymu unrhyw niwed i'r afu a fyddai'n awgrymu problemau'n ymwneud ag alcohol. Mae'r meddyg yn gorffen y llythyr gan ddweud nad oes modd iddo roi barn am unrhyw ddigwyddiad penodol lle mae honiad bod yr Hawlydd wedi bod yn yfed gan nad oedd yno ar y pryd.
76. Fel mae'n digwydd, nid yw hynny'n hollol gywir. Roedd y meddyg wedi gweld yr Atebydd yn hwyrach ar fore'r 5ed o Dachwedd, un o'r dyddiau pan honnwyd bod yr Hawlydd dan ddylanwad alcohol. Nid yw llythyr Ms Davies yn cyfeirio at y dyddiadau ond nid yw'n hollol glir pam nad eglurodd yr Hawlydd wrth ei meddyg ei bod wedi ei weld ar un o'r diwrnodau perthnasol pan welodd hi ef ar y 18fed.
77. Mae negeseuon testun rhwng Ms Davies a'r Hawlydd [t.92-94] yn dangos Ms Davies yn annog yr Hawlydd i gysylltu â'r feddygfa i ofyn am ateb i'w llythyr a "dilyn fyny y mater" oherwydd ei bod "eisiau symud pethau ymlaen rwan er tegwch i ti a'r Cylch". Gan na chafwyd ateb ysgrifennodd Ms Davies eto at y meddyg ar y 7fed o Ragfyr. Mae'r llythyr hwnnw yn ailadrodd air-am-air y cwestiynau yn y llythyr 16eg o Dachwedd.
78. Atebodd y meddyg mewn llythyr ar y 23ain o Ragfyr 2016. Ail-adroddodd yr hyn a ddywedodd yn ei lythyr ar y 18fed ond hefyd dywedodd nad oedd yn meddwl y byddai meddyginiaeth pwysau gwaed yr Hawlydd yn achosi iddi arogl o alcohol, i fod yn sigledig ar ei thraed neu fod yn ddrislyd. Adroddodd bod yr Hawlydd yn gwadu'n llwyr ei bod dan ddylanwad alcohol ar y diwrnod mewn cwestiwn. Dywed nad yw mewn sefyllfa i gadarnhau hyn nac mewn sefyllfa i fynegi barn ar ffitrwydd yr Hawlydd i weithio gyda phlant.
79. Rwy'n derbyn bod rhywfaint o'r oedi yn deillio o aros am ateb y meddyg a bod tystiolaeth bod Ms Davies yn ceisio symud pethau ymlaen trwy annog yr Hawlydd i gysylltu â'i meddyg i'w annog i ateb y llythyr. Mae'n amlwg hefyd y byddai rhywfaint o oedi oherwydd bod rhaid i'r meddyg gael caniatâd yr Hawlydd cyn ateb.
80. Yr ail reswm am yr oedi yn ôl Ms Davies oedd bod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd wedi golygu nad oedd modd cysylltu â'r tystion i gael eu caniatâd i ddefnyddio eu hadroddiadau. Yn wreiddiol, roedd yr adroddiadau A-Dd yn ddiennw ond mae'n amlwg i rywun greu ffurflen "Caniatáu tystiolaeth" i'r tystion arwyddo i gadarnhau eu bod yn hapus i'r Cylch ddefnyddio eu henw ar yr adroddiad a'i gyflwyno fel tystiolaeth neu i'w ddefnyddio fel tystiolaeth ddiennw. Rhoddodd Nia Harries a Sioned Evans eu caniatâd i ddefnyddio eu henwau ond gofynnodd gweddill y cydweithwyr [adroddiadau C-D] am gael cadw yn ddiennw. Nid oes ffurflen ar gyfer adroddiad Dd sef y rhiant a roddodd dystiolaeth. Cafodd y ffurflenni

- caniatâd eu harwyddo rhwng 20 a 25 Ionawr 2016. Nid yw'n glir syniad pwy oedd creu'r ffurflenni ac ni chlywais dystiolaeth yn egluro pam ei bod wedi cymryd hyd at dair wythnos wedi'r flwyddyn newydd i gasglu'r caniatâd. Rwyf wedi nodi bod yr adroddiadau ar gael ers diwedd mis Tachwedd a bod y mwyafrif o'r tystion yn gweithio yn y Cylch neu yn yr un adeilad a'r Cylch felly, mae'n ymddangos i mi, byddai wedi bod yn gymharol hawdd i gael gafael arnynt i arwyddo'r ffurflenni.
81. Y trydydd reswm am yr oedi yn ôl Ms Davies oedd ei bod hi wedi gorfod gofyn am gyngor gan y Mudiad ar wahanol faterion. Rwyf eisoes wedi nodi nad oedd Ms Davies â phrofiad o gynnal ymchwiliad o'r fath a bod gofyn am gyngor felly yn ddealladwy.
82. Fel rwyf wedi crybwyll, mae'n amlwg bod cyfathrebu llai ffurfiol rhwng Ms Davies a'r Hawlydd wedi parhau yn y cyfnod rhwng Tachwedd 2015 ac Ionawr 2016. Am un peth, perodd cwyn gan yr Hawlydd i Ms Davies gynnal cyfarfod gyda staff y Cylch yn gynnar ym mis Rhagfyr i'w hatgoffa bod mater yr honiadau yn erbyn yr Hawlydd yn gyfrinachol. Digwyddodd hynny oherwydd i'r Hawlydd gyfarfod ag un o rieni'r Cylch yn y dre a bod y rhiant wedi gofyn iddi a oedd hi'n wir nad oedd yn gweithio yn y Cylch. Tystiodd Carys Lloyd i Heulwen Davies gynnal cyfarfod gyda'r staff i bwysleisio bod y mater yn hollol gyfrinachol. Roedd copïau o negeseuon testun yn y bwndel dogfennau yn cadarnhau i'r Hawlydd a Ms Davies "drafod" hyn; i Ms Davies gysylltu ag Eirwen Hughes am y mater; ac i Ms Davies gynnal cyfarfod gyda'r staff am y mater.
83. Mae'n amlwg bod yr Hawlydd ar brydiau wedi gorfod gwrthio'r atebydd am atebion. Er enghraifft, ar y 13ddeg o Ragfyr 2015 [t.69] ysgrifennodd yr Hawlydd at Ms Davies yn cyfeirio at sgwrs ffôn a neges testun ar 26ain o Dachwedd yn gofyn a oedd Ms Davies neu unrhyw un ar y "panel ymchwilio" wedi gwneud cwyn yn ei herbyn. Nid oes ateb oddi wrth Ms Davies tan yr 22ain o Ionawr [t.75]. Hyd yn oed a derbyn na dderbyniwyd llythyr yr Hawlydd gan y Pwyllgor tan 18fed o Ragfyr fel dywed llythyr Ms Davies ar y 22ain o Ionawr, mae oedi o fis cyn ateb. Eto, ni chafodd yr Hawlydd gopïau o gofnodion y cyfarfod ymchwilio tan y llythyr 25ain Ionawr er iddi ofyn amdanynt fan hwyraf ar yr 20fed o Ragfyr a chael sicrhad gan Eirwen Hughes y byddai'n "cael cofnodion i chi mor gynted â phosib" [negeseuon testun t.65].
84. I grynhoi, rwy'n canfod bod rhan o'r oedi rhwng y cyfarfod ymchwilio a'r gwrandawriad disgyblu yn deillio o aros am ateb y meddyg i gwestiynau dilys. Mae dystiolaeth i'r Atebydd gymryd camau i symud pethau ymlaen o ran hynny. Roedd rhan o'r oedi oherwydd ansicrwydd Ms Davies am y camau cywir a rhan, mae'n ymddangos i mi, oherwydd diffyg cyfathrebu rhwng y Mudiad a'r Cylch. Yr enghraifft benodol o hynny yw'r methiant i basio copi o gofnodion y cyfarfod ymchwilio i'r Hawlydd. Yn ôl Ms Davies nid oedd yn ymwybodol bod angen gwneud hynny ond mae'n amlwg bod Ms Hughes wedi cytuno i'w rhoi i'r Hawlydd ym mis Rhagfyr man hwyraf.

Y gwrandawriad disgyblu

85. Cynhaliwyd y gwrandawriad disgyblu ar yr 8fed o Chwefror yn swyddfa'r Mudiad. Yr 28ain o Ionawr oedd y dyddiad gwreiddiol ond mewn llythyr ar y 26ain gofynnodd yr Hawlydd am fwy o amser i ystyried cofnodion y cyfarfod ymchwil ac am aros i gael ateb i'w llythyr i Brif Weithredwr y Mudiad Meithrin. Ail-drefnwyd y cyfarfod ar y 3ydd o Chwefror a chytunodd yr Hawlydd â hynny, ond yna cafodd ei ohirio tan yr 8fed ar ofyn yr Atebydd.
86. Yn wreiddiol, y bwriad oedd mai Anwen Elias, Person Cofrestredig y Cylch, fyddai'n cynnal y gwrandawriad gyda Kate Woodward yn cymryd y cofnodion. Cyn-gadeirydd y Cylch yw Ms Elias. Erbyn yr 8fed roedd Anwen Elias yn gweithio dramor felly penderfynwyd y byddai Morfudd Bevan, Trysorydd y Cylch, yn cynnal y gwrandawriad gyda Heather Davis-Rollison, Cyfarwyddwr Rhanbarthol y Mudiad. Y rheswm am hynny, yn ôl llythyr Anwen Elias ar y 29ain o Ionawr [t.171-172] oedd mai Morfudd Bevan oedd unig aelod y Pwyllgor ar gael nad oedd wedi bod yn rhan o'r broses eisoes. Yn anghyffredin, efallai, o gofio nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor, Ms Davis-Rollison oedd cadeirydd y gwrandawriad. Yn ôl datganiad Morfudd Bevan y rheswm am hynny oedd bod gan Ms Davies-Rollison brofiad o gynnal a chadeirio gwrandawriadau o'r fath. Nid oedd y fath brofiad gan Ms Bevan ac nid oedd wedi cael hyfforddiant ar ddisgyblu staff. Cadarnhaodd nad oedd yn gyfarwydd â Chod ACAS ynglŷn â disgyblaeth a chwynion.. Yn ôl Ms Bevan, cafodd becyn yn cynnwys adroddiadau A-Dd ryw ddeuddydd cyn y grandawriad a'u darllen yn drylwyr.
87. Roedd yr Hawlydd wedi derbyn copïau o'r adroddiadau ac, er eu bod yn ddiennw, wedi dyfalu mai datganiad Vicky Lowden oedd adroddiad Ch. Roedd felly wedi anfon neges destun i Heulwen Davies ar y 3ydd o Chwefror [t.82] yn gofyn i Vicky Lowden fod yn bresennol yn y gwrandawriad disgyblu fel bod modd i'r Hawlydd ei holi. Atebodd Ms Davies a gofyn i'r Hawlydd anfon unrhyw gwestiynau i Vicky Lowden ymlaen llaw fel bod modd cael ei hatebion ar bapur ar gyfer y gwrandawriad os nad oedd yn fodlon bod yn bresennol. Ar 4ydd Chwefror cadarnhaodd Ms Davies mewn neges destun [t.83] nad oedd Ms Lowndes yn fodlon dod i'r gwrandawriad a gofyn eto am gwestiynau ysgrifenedig. Atebodd yr Hawlydd ar y 5ed gan ddweud "I wanted Vicky to read out her statement but as Vicky will not be attending, I would like Eleri Davies to be present, just to read out her statement at the disciplinary" [t.84]. Mae'r Hawlydd yn derbyn na pharatôdd gwestiynau ysgrifenedig i Vicky Lowndes na Eleri Davies ac nid oes awgrymiad yn y negeseuon testun iddi ddadlau mai diffyg amser a'i rhwystrodd rhag gwneud hynny.
88. Un mater arall sy'n werth ei grybwyll yw i'r Atebydd gytuno na fyddai Kate Woodward yn bresennol i gymryd cofnodion y gwrandawriad gan ei bod wedi cymryd rhan yn y cyfarfod ymchwilio. Yn lle hynny, Angharad Starr gymerodd y cofnodion.
89. Mae cofnodion y gwrandawriad yn dweud iddo barhau o 14:24-15:10. Mae'n nodi Ms Davies-Rollinson yn mynd trwy'r honiadau ac yn rhoi cyfle

- i'r Hawlydd ateb pob un. O ran yr honiadau o fod dan ddylanwad alcohol ar y 4ydd a'r 5ed mae'r cofnodion yn adrodd i'r Hawlydd wadu ei bod yn yfed alcohol.
90. O ran y 4ydd nododd yr Hawlydd bod datganiad C [gan Carys Lloyd] yn cyfeirio at Heulwen Davies yn dweud bod "un o'r rhieni" wedi cwyno bod [yr Hawlydd] yn aroglï o alcohol" ond nad oedd cwyn gan riant ar y 4ydd. Yn ôl tystiolaeth Heulwen Davies, Nia Harries yn hytrach na rhiant, gododd gwyn. Yn ei datganiad i'r tribiwnlys cadarnhaodd Ms Lloyd mai ei chamgymeriad hi oedd hyn ac na ddywedodd Ms Davies wrthi mai rhiant a oedd wedi cwyno ond "rhywun".
 91. Mae'r Hawlydd yn honni mai yn hytrach na bod yn gamgymeriad, roedd y cyfeiriad gan Carys Lloyd yn adroddiad C at gwyn gan riant yn cyfeirio at gwyn gan Heulwen Davies. Dyna pam, yn ôl yr Hawlydd, ei bod yn anaddas iddi gynnal yr ymchwiliad i'w hachos.
 92. Rwy'n derbyn mai camgymeriad gan Carys Lloyd yw'r cyfeiriad at "riant" yn adroddiad C. Rwyf eisoes wedi canfod mai Nia Harries yn hytrach na rhiant wnaeth yr honiad gwreiddiol. Yn ogystal nid yw'n fy nharo'n debygol y byddai Heulwen Davies yn ffonio Carys Lloyd i ddweud wrthi ei bod yn dod i'r Cylch oherwydd bod "rhiant" wedi codi cwyn os mai hi ei hun oedd wedi codi cwyn.
 93. Mae'n amlwg, fodd bynnag, bod rhywfaint o ddryswch ar y pwynt hwn trwy gydol y gyfundrefn ddisgyblaeth. Yn ôl cofnodion sgwrs ffôn rhwng Ms Bevan a Ms Davies wedi'r gwrandawriad disgyblu [p.181], gofynnodd Ms Bevan i Ms Davies "why no statement from the parent referred to as complaining on the Wednesday 4 November 2015". Yn hytrach na dweud nad oedd y fath gwyn, ei hateb oedd "the complaint of the parent from the 4th November 2015 cannot be considered in the disciplinary process". Ateb Ms Davies oedd "the complaint of the parent from the 4th November 2015 cannot be considered in the disciplinary process". Nid yw'n glir ai'r hyn roedd Ms Davies yn ei olygi oedd na ddylid ystyried ei thystiolaeth hi am y 4ydd (am ei chyfarfod gyda'r Hawlydd). Beth sy'n glir, fodd bynnag, yn sgil ei hateb i Ms Bevan, yw nad oedd datganiad gan riant am y 4ydd dan ystyriaeth gan y gwrandawriad disgyblu
 94. Roedd rhan o'r gwrandawriad yn ymwneud â honiad nad oedd yn y diwedd yn rhan o'r penderfyniad i ddiswyddo. Honiad oedd hwn i'r Hawlydd roi iogwrt yn hytrach na ffrwyth fel "tocyn" i un o'r plant. Yr honiad oedd bod hyn yn groes i bolisi'r Cylch o roi ffrwyth fel "tocyn". Ateb yr Hawlydd oedd bod rhieni weithiau'n rhoi iogwrt yn hytrach na ffrwyth yn y bag ar gyfer eu plant a bod staff eraill hefyd wedi rhoi iogwrt i blant yn y gorffennol.
 95. O ran yr honiad o fod dan ddylanwad alcohol ar y 5ed, gofynnodd yr Hawlydd i'r gwrandawriad disgyblaeth gymryd sylw o lythyr oddi wrth ei meddyg wedi ei ddyddio 27ain o Ionawr 2016. Dywed y llythyr i'r meddyg weld yr Hawlydd mewn apwyntiad ar fore'r 5ed o Dachwedd 2015, dywed "I was not aware of her being under the influence of alcohol at the time of the consultation". Awgrymodd yr Hawlydd yn y gwrandawriad nad oedd hynny'n gyson gyda'r dystiolaeth yn adroddiad Ch a D ei bod yn aroglï'n

- gryf o alcohol y bore hwnnw. Cododd yr Hawlydd y pwynt hefyd mai dim ond un o'r ddau riant a fuodd yn sgwrsio gyda hi roddodd dystiolaeth. Gofynnodd hefyd pam nas ataliwyd hi rhag gweithio ar ddydd Llun 9fed o Dachwedd os oedd honiadau mor ddifrifol yn ei herbyn.
96. Yn y gwrandawriad, yn ôl y cofnodion [t.176-180], cytunodd yr Hawlydd nad oedd ei meddygyniaeth pwysau gwaed yn cael unrhyw sgil effaith arni ar y 4ydd neu'r 5ed. Cytunodd hefyd ei bod wedi cael cyfle digonol i ystyried adroddiadau A-Dd ac nad oedd ganddi gwestiynau ychwanegol. Yn ei llythyr apêl honnodd yr Hawlydd nad oedd y cofnodion yn gywir. Gwnaeth ei merch, a oedd yn y gwrandawriad disgyblu gyda hi, yr un honiad. Fodd bynnag, nid oedd manylion am yr anghywirdebau honedig ac yn sgil hynny rwy'n derbyn bod y cofnodion yn adlewyrchu'n gywir yr hyn a ddigwyddodd yn y gwrandawriad.
97. Wedi'r gwrandawriad, ffoniodd Morfudd Bevan Heulwen Davies, Carys Lloyd a Vicky Lowden i gasglu atebion i gwestiynau'n codi o'r gwrandawriad [t.181]. Yn ogystal ag ateb y cwestiwn am gwyn gan riant ar y 4ydd a grybwyllwyd eisoes, eglurodd Ms Davies na chafodd yr Hawlydd ei hatal rhag gweithio ar y 9fed oherwydd ei bod yn aros am gyngor gan y Mudiad.
98. Cadarnhaodd Carys Lloyd bod plant weithiau yn cael iogwrt fel "tocyn" pan nad oedd ffrwyth ar gael iddynt.
99. Cadarnhaodd Vicky Lowden na soniwyd am y camgymeriad gyda'r iogwrt gyda'r Hawlydd ar y pryd.
100. Er mai Ms Davies-Rollison oedd yn cadeirio'r gwrandawriad, nid oedd hi'n rhan o'r Pwyllgor felly Morfudd Bevan ac Anwen Elias wnaeth y penderfyniad i ddiswyddo. Gwnaethant hynny yn dilyn dwy drafodaeth ffôn ar y 9fed a'r 10fed o Chwefror. Roedd rhaid gwneud hyn ar y ffôn oherwydd bod Ms Elias yn gweithio dramor erbyn hyn. Roedd Ms Davies-Rollison yn bresennol yn ystod y galwadau ac fe gymerwyd y cofnodion gan Angharad Starr. Nid oedd sialens i gywirdeb y cofnodion. Maent yn dangos mai trafodaeth rhwng Ms Bevan a Ms Ellis o'r dystiolaeth oedd prif gynnwys y galwadau.
101. Mae'r cofnodion yn cadarnhau i Ms Elias gael copïau o'r adroddiadau a'r dogfennau yn y gwrandawriad ac i Ms Davis-Rollison ddarllen llythyr y meddyg o'r 27ain o Ionawr iddi. Mae'r cofnodion hefyd yn adrodd i Ms Bevan egluro cynnwys ei galwadau ffôn gyda Heulwen Davies, Carys Lloyd a Vicky Lowden wedi'r gwrandawriad ar yr 8fed. Yn benodol mae'n nodi eglurhad Ms Davies am beidio atal yr Hawlydd rhag gweithio ar y 9fed; nad oeddynt yn gallu ystyried adroddiad y riant a gododd gwyn ar y 4ydd; bod rhai plant weithiau yn cael iogwrt fel "tocyn"; bod yr Hawlydd wedi cyflwyno gwybodaeth yn awgrymu y gallai ei meddygyniaeth pwysau gwaed achosi sgil effeithiau fel bod yn sigledig ar ei thraed ond ei bod yn gwadu ei bod yn sigledig ar y dyddiau dan sylw.
102. Mae cofnodion yr alwad ar y 10fed [t.184-185] yn adrodd y penderfyniad i ddiswyddo wedi ystyried adroddiadau A-Dd ac ymateb yr Hawlydd yn y gwrandawriad. Yn sgil y dystiolaeth ynglŷn ag anghysondeb

- y polisi o ran rhoi iogwrt fel “tocyn” mae’r cofnodion yn nodi “decide not to consider this matter any further as part of disciplinary proceedings”.
103. Cadarnhaodd Ms Bevan y penderfyniad a’r rhesymau mewn llythyr ar y 10 Chwefror 2016 [t.186]. Fel nododd yr Hawlydd, Mae’r llythyr ar bapur y Mudiad yn hytrach na’r Cylch. Eglurodd Ms Bevan bod hyn wedi digwydd oherwydd iddynt fod yn defnyddio adnoddau ‘r Mudiad ar gyfer y galwadau ac mae aelod o staff y Mudiad oedd yn teipio’r llythyr wrth i Ms Bevan ei draddodi. Rwy’n derbyn mai ar gamgymeriad y digwyddodd hyn yn hytrach na’i fod yn awgrymu mai’r Mudiad yn hytrach na’r Cylch wnaeth y penderfyniad i ddiswyddo.
104. Sylfaen y penderfyniad oedd bod Ms Bevan a Ms Elias yn derbyn tystiolaeth yr adroddiadau A-Dd dros dystiolaeth yr Hawlydd ynglŷn â’r hyn ddigwyddodd ar y 4ydd a’r 5ed, ac yn ganolog i hyn oedd y ffaith bod pedwar allan o’r pum tyst yn dweud ei bod yn aroglu o alcohol. Mae’r llythyr hefyd yn delio gyda phrif ddadleuon yr Hawlydd. Eglura’r llythyr ei bod yn rhesymol i gredu y byddai’r arogl alcohol wedi lleihau yn sylweddol erbyn ei hapwyntiad meddygol am 11.30 ar fore Iau y 5ed a bod hyn yn egluro pam na sylwodd y meddyg arno yn ei hapwyntiad. Mae’r llythyr yn cadarnhau na chwaraeodd Heulwen Davies unrhyw ran yn y penderfyniad disgyblu ac na roddodd dystiolaeth. Mae hefyd yn adrodd eglurhad Heulwen Davies am beidio atal yr Hawlydd rhag gweithio ar y 9fed ac yn cadarnhau iddynt ofyn i’r ail riant a sgwrsiodd gyda’r Hawlydd ar y 5ed i roi tystiolaeth ond ei bod hi wedi gwrthod bod yn rhan o’r broses.

Yr apêl

105. Apeliodd yr Hawlydd trwy lythyr ar yr 11ddeg Chwefror 2016. Cododd dair sail apêl. Y cyntaf oedd ei bod yn afresymol i wrthod galw Vicky Lowden i roi cyfle i’r Hawlydd ei chroesholi. Yr ail oedd na chafodd wybod beth oedd tystiolaeth Ms Lowden a Carys Lloyd yn y galwadau ffôn wedi’r gwrandawriad. Y trydydd oedd ei bod yn annheg i Heulwen Davies fod yn gyfrifol am yr ymchwiliad pan roedd hi ei hunan wedi codi cwyn yn erbyn yr Hawlydd.
106. Cynhaliwyd y gwrandawriad apêl ar y 23ain o Fawrth. Cafodd ei ohirio o’r 9fed o Fawrth oherwydd anhwylder yr Hawlydd. Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu Gwasanaeth ac AcadeMI Y Mudiad, gynhaliodd y gwrandawriad. Fel eglurodd Morfudd Bevan mewn ateb i lythyr gan yr Hawlydd, roedd rhaid i rywun o du allan y Cylch gynnal y gwrandawriad gan fod pob aelod o’r Pwyllgor wedi chwarae rhan, naill ai yn yr ymchwiliad neu’r gwrandawriad disgyblu.
107. Yn ôl y cofnodion, treuliodd yr Hawlydd amser yn awgrymu bod adroddiadau C a Ch yn anghyson am yr hyn a ddigwyddodd ar y 4ydd. Awgrymodd hefyd bod yr honiadau yn anwir. Dywedodd bod un o’r staff wedi anfon neges destun yn dweud hynny ond nid oedd yn fodlon rhannu’r neges. Fe wnaeth rannu negeseuon testun oddi wrth Carys Lloyd [t.208-209] yn dweud “ti gwybod ma dim fi odd wedi cwyno!” ac yn dweud nad oedd eisiau colli yr Hawlydd fel ffrind. Awgrymodd yr Hawlydd fod y

rheini'n cadarnhau bod yr honiadau yn ffals. Dywedodd hefyd ei bod dal mewn cysylltiad gyda'r rhiant (adroddiad Dd) ac wedi derbyn neges Nadolig Facebook ganddi.

108. O ran croesholi'r tystion, roedd yr Hawlydd wedi cael cyfle i anfon cwestiynu ysgrifenedig iddynt ond heb wneud. Yn y cyfarfod apêl rhoddodd Ms Marsh gyfle arall iddi godi unrhyw gwestiynau ar eu cyfer ond cadarnhaodd yr Hawlydd nad oedd ganddi gwestiynau eraill.
109. Yn yr apêl fe gododd yr Hawlydd y ffaith bod Heulwen Davies yn dal i chwarae rhan yn y broses hyd at y gwrandawriad disgyblu yn gynnar ym mis Chwefror 2016. Y rheswm yr oedd hyn yn poeni'r Hawlydd oedd ei bod hi'n honni nad oedd Ms Davies yn ddiuedd. Roedd hefyd wedi derbyn cadarnhad gan Ms Davies yn ei llythyr ar y 22ain Ionawr 2016 mai ei "rôl yn y broses hon yw fel person ymchwilio yn unig". Yn ôl yr Hawlydd roedd hynny'n anghyson â'r ffaith bod Ms Davies yn dal i ymateb i negeseuon am y gwrandawriad disgyblu ar y 3ydd, 4ydd a'r 5ed o Chwefror.
110. Mae'n amlwg o gofnodion y gwrandawriad apêl i'r Hawlydd hefyd godi'r ffaith mai am 11 o'r gloch ar y 5ed roedd ei hapwyntiad gyda'r meddyg yn hytrach na 11.30 fel yr awgrymodd adroddiad Ch. Ei dadl hi oedd bod hyn yn tanseilio'r canfyddiad yn y gwrandawriad disgyblaeth y byddai unrhyw arogl alcohol wed lleihau yn sylweddol cyn iddi weld y meddyg. Roedd hefyd wedi cyflwyno llythyr gan feddyg ar y 18fed Chwefror 2016 ynglyn â'r amser mae effaith alcohol yn cymryd i ddiflannu o'r corff. Dadl yr Hawlydd oedd bod gwefan NHS Choices yn awgrymu mai ar ôl 8-9 uned o alcohol "your speech begins to slur and your vision will start to lose focus". Dywed mai dyna'r lefel o alcohol fyddai'n gyson gyda honiadau adroddiad Ch amdani ar fore Dydd Iau. Os oedd hynny'n wir yna, dywed yr Hawlydd, roedd llythyr y meddyg yn awgrymu y byddai'n cymryd wyth awr i effaith yr alcohol ddiflannu (dywed y llythyr "it could take roughly one hour per unit to get out the alcohol out of the body system"). Byddai'n amhosibl, felly, i'r effaith fod wedi diflannu erbyn iddi weld y meddyg am 11 ar fore Dydd Iau.
111. Unwaith eto, mae'r Hawlydd a'i merch (oedd yn dyst i'r gwrandawriad apêl) yn honni nad yw'r cofnodion yn gywir ond ni wnaethant godi cŵyn ynglyn â'r materion uchod. Rwy'n derbyn, felly, o ran y materion uchod bod y cofnodion yn gywir. Ar y llaw arall, mae'r Hawlydd a'i merch yn honni nad yw'r cofnodion yn cynnwys popeth a ddywedwyd gan Ms Marsh. Yn benodol, awgrymir i Ms Marsh gytuno y dylai'r Cylch ymddiheuro am yr honiad ei bod hi "mas o fe" ar y Dydd Mawrth 3ydd ac am yr honiad ynglyn â rhoi iogwrt i blentyn yn hytrach na ffrwyth. Awgrymir hefyd iddi ddweud ar ddiwedd y gwrandawriad bod yr Hawlydd wedi dod â digon o dystiolaeth i ddad-brofi'r honiadau am Ddydd Iau.
112. Mae Ms Marsh yn gwadu'r awgrymiadau. Yn ei thystiolaeth lafar cydnabu iddi ddweud ei bod hi'n ymddiheuro os oedd yr honiadau eraill wedi ychwanegu at y straen roedd yr Hawlydd yn teimlo. Cydnabu hefyd ei bod hi'n teimlo'n llai sicr am yr honiadau ar Ddydd Iau o gymharu

â theimlo'n 100% sicr am honiadau Dydd Mercher ynglyn â bod dan ddylanwad alcohol. Roedd yn glir na ddywedodd y dylid ymddiheuro na bod digon o dystiolaeth o blaid yr Hawlydd am Ddydd Iau. Mae'n ymddangos i mi bod fersiwn Ms Marsh o'r hyn a ddigwyddodd yn fwy tebygol a bod yr Hawlydd efallai wedi gwneud mwy o unrhyw gydnabyddiaethau neu ddatganiadau o gydymdeimlad gan Ms Marsh nad oedd hi'n bwriadu. Beth bynnag am hynny, beth sy'n glir yw bod Ms Marsh wedi penderfynu gwrthod bob sail o apêl.

113. Cadarnhaodd Ms Marsh ei fod yn gwrthod yr apêl mewn galwad ffôn tua 4 o'r gloch wedi'r gwrandawriad. Yn anffodus nid oes nodyn o'r alwad. Yn fwy anffodus (a dweud y lleiaf) ni anfonwyd y llythyr yn cadarnhau'r penderfyniad a'i rhesymau tan 20 Ebrill 2016. Tystiodd yr Hawlydd (ac rwy'n derbyn hynny) iddi gysylltu â swyddfa'r Mudiad nifer o weithiau rhwng y gwrandawriad a'r llythyr i ofyn am y cofnodion a'r llythyr rhesymau. Yn ôl Leanne Marsh ni dderbyniodd lythyrau na negeseuon yr Hawlydd. Os hynny mae'n ymddangos i mi fod rhyw ddiffyg yn systemau cyfathrebu mewnol y Mudiad. Hyd yn oed o dderbyn bod Ms Marsh wedi bod ar wyliau a'i bod hefyd yn brysur gyda chyfarfodydd yn y gwaith ni chafodd yr Hawlydd gadarnhad ffurfiol o fethiant ei hapêl am bron i fis.
114. Mae'r llythyr ei hun yn egluro'r penderfyniad mewn cryn fanylder. I grynhoi: roedd Ms Marsh yn penderfynu nad oedd mân anghysonderau rhwng yr adroddiadau yn ddigon i olygu bod y penderfyniad i ddiswyddo yn afresymol; nid oedd yn derbyn bod y ffaith bod yr apwyntiad meddygol am 11 yn hytrach na 11.30 o'r gloch yn gwneud gwahaniaeth digon sylweddol; ac roedd yn glir nad oedd Heulwen Davies wedi chwarae unrhyw ran yn y penderfyniad i ddiswyddo.
115. Er bod llythyru pellach rhwng yr Hawlydd a'r Mudiad nid yw'r dogfennau hynny yn ymddangos i mi i fod yn berthnasol i'r materion y gofynnir i mi benderfynu arnynt.

Y Gyfraith

116. Mae'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ("ERA") yn rhoi'r hawl i gyflogeion i beidio â chael eu diswyddo'n annheg.
117. Y cwestiwn cyntaf i'r tribiwnlys yw a oes yr hyn a elwir yn "a potentially fair reason for dismissal" o fewn Adran 98(2) ERA. Yn yr achos hwn mae'r Atebydd yn honni bod y diswyddiad o achos camymddwyn. Mae camymddwyn yn un o'r "potentially fair reasons" dan Adran 98(2)(b) ERA.
118. Y cwestiwn nesaf yw a oedd diswyddo am y rheswm hynny yn "fair in all the circumstances" (Adran 98(4) ERA).
119. O ran diswyddo oherwydd camymddwyn, y prif awdurdod achos yw **BHS v Burchell [1978] IRLR 379** sy'n sefydlu prawf tri-chymal (i) Did the employer have a genuine belief in the employee's guilt? (ii) Was that belief based on reasonable grounds? (iii) Were those grounds formed from a reasonable investigation?"

120. Yn ôl **Iceland Frozen Foods Ltd v Jones [1982] IRLR 439** y cwestiwn mae gofyn i'r tribiwnlys ei ateb yw ydy'r diswyddo o fewn "the band of reasonable responses that a reasonable employer in the circumstances might have adopted."
121. Mae'r un prawf o'r "band of reasonable responses test" yn berthnasol wrth ystyried rhesymoldeb yr ymchwiliad gan y cyflogwr (**Sainsbury's Supermarkets v Hitt [2003] IRLR 23**).
122. Yn ôl y llys yn **Polkey v A E Dayton Services Ltd [1988] 1 AC 344, [1988] ICR 142** "If an employer has failed to take the appropriate procedural steps in any particular case, the one question the [employment] tribunal is not permitted to ask in applying the test of reasonableness... is the hypothetical question whether it would have made any difference to the outcome if the appropriate procedural steps had been taken. It is quite a different matter if the tribunal is able to conclude that the employer himself, at the time of dismissal, acted reasonably in taking the view that, in the exceptional circumstances of the particular case, the procedural steps normally appropriate would have been futile, could not have altered the decision to dismiss and therefore could be dispensed with. In such a case the test of reasonableness under section [98(4)] may be satisfied."
123. Os yw'r tribiwnlys yn penderfynu nad yw'r diswyddo'n deg mae gofyn iddo roi fel iawndal "such amount as the tribunal considers just and equitable in all the circumstances, having regard to the loss sustained by the complainant in consequence of the dismissal" (s.123(1) ERA).
124. Mae hynny'n golygu bod modd lleihau'r iawndal pe byddai'n deg i ddiswyddo'r hawlydd yn hwyrach neu petai gyfundrefn ddilys wedi ei dilyn (gelwir hyn fel arfer yn "Polkey reduction" yn sgil dyfarniad Tŷ'r Arglwyddi yn **Polkey v AE Dayton Services Ltd 1988 ICR 142**).
125. Yn ôl a.123(6) ERA "where the tribunal finds that the dismissal was to any extent caused or contributed to by any action of the complainant it shall reduce the compensatory award by such proportion as it considers just and equitable having regard to that finding."
126. Yn ôl a.122(2) ERA "Where the tribunal considers that any conduct of the claimant before the dismissal (or, where the dismissal was with notice, before the notice was given) was such that it would be just and equitable to reduce or further reduce the amount of the basic award to any extent, the tribunal shall reduce or further reduce that amount accordingly."
127. Yn ôl a.207A(2) Trade Union Labour Relations (Consolidation) Act 1992 (TULR(C)A) mae modd i'r tribiwnlys "if it considers just and equitable in all the circumstances to do so, increase any award it makes to the employee by no more than 25% where the ACAS Code of Practice on Disciplinary and Grievance Procedures applies and an employer has unreasonably failed to comply with that Code or reduce any award by no more than 25% if the employee has unreasonably failed to comply with the Code."

128. Yn ôl a.124A ERA, “any award under s.207A TULRCA and s.38 Employment Act 2002 shall be applied immediately before any reduction under s.123(6).”
129. Yn ystod y grandawriad fe dynnais sylw'r partion at achosion oedd yn ymddangos i mi yn berthnasol i'r materion yr oedd gofyn i mi benderfynu arnynt.
130. Y cyntaf oedd **Linfood Cash and Carry v Thomson [1989] ICR 518, EAT**. Yn **Linfood** rhoddodd y llys ganllawiau ar gyfer delio gyda materion disgyblaeth lle mae tystion am aros yn ddiennw. Mae'r canllawiau'n pwysleisio'r angen i ddal y fantol rhwng diogelu'r tyst a gwneud yn siŵr bod unrhyw wrandawriad yn deg. Mae'r canllawiau'n cael eu cyfeirio atynt yn “ACAS Guide: Disciplinary and Grievance at Work”. Mae pwynt 4 o dan yr is-deitl “Preparing for a hearing” yn dweud “be careful when dealing with evidence from a person who wishes to remain anonymous. Take written statements, seek corroborative evidence and check that the person's motives are genuine”.
131. Yr ail oedd **Barlow v Clifford [2005] UKEAT 0910_04_2809**. Roedd yr achos hwnnw yn ymwneud â thegwch diswyddiad lle bod tyst i'r digwyddiad perthnasol yn chwarae rhan yn y broses ddisgyblu yn deillio o'r digwyddiad. Cyfeiria'r achos hwnnw yn ôl at ddyfarniad mewn achos hŷn ar yr un pwynt; “Both Counsel referred us to *Moyes v Hylton Castle Working Men's Social Club and Institute Limited* [1986] IRLR 482 which concerned a case where a club steward had allegedly sexually harassed a nineteen year old barmaid and one of the two incidents had been observed by the chairman and assistant secretary of the club who thereafter took part in the investigation and disciplinary hearing. The EAT held that it was a breach of natural justice rendering dismissal unfair for the two officials to be both witnesses and judges in that any reasonable observer would conclude that in view of the dual role, justice did not appear to be done nor was it done.”
132. Fodd bynnag, yn **Barlow** ei hun penderfynodd yr EAT “Not unreasonable for persons who take part in a decision to suspend to take part in the disciplinary or appeal hearing”. Yn yr achos hwnnw roedd y cyflogai dan ddisgyblaeth mor uchel yn y cwmni fel mai dim ond pwll bach o unigolion oedd yn addas i glywed y mater. Y cwestiwn sylfaenol, yn ôl yr EAT, oedd a oedd y broses yn annheg i'r cyflogai?
133. Y trydydd achos perthnasol oedd **Now Motor Retailing Ltd v Mulvihill [2015] UKEAT 0052_15_1506**. Yn hwnnw un rheswm am benderfynu bod y diswyddo yn annheg oedd nad oedd y cyflogwr wedi cyfweld tystion a allai fod yn berthnasol; “The Employment Tribunal's second criticism of process was that there were no interviews with two workers whose workstations were adjacent to the Claimant. Nor was there an interview with the Claimant himself. So far as the interview with workers is concerned, this appears to us to be a fair criticism. We can see that an Employment Tribunal, applying the correct test, could well find that the Respondent's investigation fell below a reasonable standard in failing

- to interview such workers. So far as a failure to interview the Claimant is concerned, the ACAS Code does not mandate such an interview and there is, in our experience, a range of practice. The Employment Tribunal has not, as it should have done under section 98(4), considered whether the procedure adopted in this case fell within the range of such practice.”
134. Yn yr un achos roedd y cyflogwr wedi defnyddio datganiadau dienw. Dywedodd yr EAT: “The Employment Tribunal’s fourth criticism was that statements were given to the Claimant anonymously. Again the Employment Tribunal seems to proceed on the basis that anonymised witness statements must be unreasonable and unfair. Again, it is not necessarily so.....Again, the Respondent gave its explanation for anonymising statements. The Employment Tribunal has not mentioned it or evaluated it against the standard laid down by section 98(4). There is a further point concerning these statements. The Employment Tribunal said that “the Claimant had no means of challenging the content of those statements.” This conclusion by the Employment Tribunal appears to us to be without foundation. The Claimant could and did challenge the content of the statements, in particular in the quite lengthy written reply which he produced before the disciplinary hearing.”

Trafodaeth a phenderfyniad

135. Rwyf wedi darllen ac ystyried dadleuon ysgrifenedig y partïon. Nid wŷd yn cyfeirio at bob pwynt yn y drafodaeth isod, dim ond at y rhai sy'n ymddangos i mi yn bwysig neu ddadleuol.
136. Yn troi felly at y materion i'w penderfynu.

[1.] The Respondent bear the burden of proving on the balance of probabilities, that the conduct was dismissed for the potentially fair reason of dismissal”

137. Awgrymodd yr Hawlydd bod yr Atebydd (a Heulwen Davies yn benodol) wedi ceisio cae gwared ohoni ym mis Hydref. Fel nodais uchod nid wyf yn derbyn yr honiad hwnnw. Rwy'n derbyn mai'r rheswm am ddiswyddo'r Hawlydd oedd camymddwyn.

[2.] If the Respondent does persuade the tribunal that its decision maker had a genuine belief in the claimant's misconduct and dismissed for that potentially fair reason, the tribunal must go on to consider the general reasonableness of that dismissal [para 9].

[3.] ...the tribunal will focus its enquiry on whether there was a reasonable basis for the respondent committee's belief and test the reasonableness of the investigation [para 11].

138. Cyn trafod y pwyntiau manwl mae'r Hawlydd wedi eu codi am y broses ymchwil a disgyblu mae'n werth camu nôl ac edrych ar y broses yn gyffredinol yn sgil y darganfyddiadau ffeithiol. Rwyf eisoes wedi beirniadu agweddau o'r broses, yn enwedig yr oedi rhwng y gwrandawriad

apêl a'r llythyr rhesymau a'r methiant i gadw nodiadau addas yn ystod y broses. Mae'n ymddangos i mi hefyd bod lle i feirniadu agweddau eraill o'r broses, e.e. y ffaith i'r Hawlydd orfod aros tan 25ain o Ionawr cyn cael gwybod manylion a'r adroddiadau yn ei herbyn ac (yn wreiddiol) cael ond tridiau o rybudd cyn y gwrandawriad disgyblu.

139. Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, nad yw methiannau o'r fath o reidrwydd yn golygu bod diswyddiad yn annheg. Y prawf yw'r prawf sydd wedi ei osod allan yn a.98(4) ERA. Yn yr achos hwn, rwyf wedi derbyn mai'r man cychwyn yw honiad ar y 4ydd o Dachwedd gan berson annibynnol o'r Atebydd bod un o staff yr Atebydd dan ddylanwad alcohol tra'n gweithio gyda phlant. Roedd honiad arall o'r un fath gan berson annibynnol (rhiant) ar y 5ed. Yn sgil yr honiadau nid oedd dewis i gyflogwr rhesymol ond cynnal ymchwiliad.
140. Wedi casglu datganiadau (h.y. adroddiadau A-Dd) oedd ar y cyfan yn ategu'r honiadau rwy'n derbyn ei bod yn rhesymol i'r Atebydd benderfynu bod sail cynnal gwrandawriad disgyblu.
141. Rwyf hefyd yn derbyn ei bod o fewn y "band of reasonable responses" i'r Atebydd benderfynu diswyddo'r Hawlydd am gamymddwyn difrifol os oedd y dystiolaeth yn dangos iddi fod o dan ddylanwad alcohol. Gan mor bwysig yw diogelwch y plant i waith (a pharhad) y Cylch byddai'r fath ganlyniad yn cyfiawnhau diswyddo hyd yn oed o gydnabod nad oedd cwyn o unrhyw fath wedi'i godi ynglŷn â gwaith yr Hawlydd cyn y digwyddiadau hyn. Rwyf eisoes wedi cofnodi bod y math yma o gamymddwyn yn un esiampl o gamymddwyn difrifol yn ôl Cyfundrefn Ddisgyblaeth Ysgrifenedig yr Atebydd.
142. Y cwestiwn canolog yn yr achos yma yw a oedd yr ymchwiliad a'r broses o benderfynu bod y dystiolaeth yn dangos bod yr Hawlydd dan ddylanwad alcohol o fewn y "band of reasonable responses". Dyna, mewn gwirionedd, yw'r cwestiwn tu cefn i'r pwyntiau penodol sy'n dilyn.

when it comes to assessing the reasonableness of this particular decision to dismiss the tribunal's attention will be focussed on two issues in particular...

[4.]..The first is the claimant's criticism of the length of time it took the respondent committee to complete its investigation and provide her with a summary of the case against her, giving her inadequate time to respond.

143. Mewn gwirionedd mae dwy elfen i'r gŵyn hon. Y gyntaf yw'r oedi cyn gorffen yr ymchwiliad a'r ail yw i'r Atebydd beidio rhoi digon o amser i'r Hawlydd i ymateb i'r honiadau. I ddelio â'r ail elfen yn gyntaf. Mi fyddwn yn derbyn bod rhoi'r tridiau a gafodd yr Hawlydd yn wreiddiol i ymateb i'r adroddiadau ac i gofnodion y cyfarfod ymchwil yn afresymol. Fodd bynnag, pan gododd yr Hawlydd y pwynt yma (yn ei llythyr ar y 26ain o Ionawr) cytunodd yr Atebydd i ohirio'r cyfarfod tan y 3ydd o Chwefror. Gan mai un dudalen o gofnodion a chwe thudalen o

adroddiadau oedd y dystiolaeth rwyf o'r farn i'r Atebydd trwy hynny roi amser digonol i alluogi'r hawlydd ymateb i'r honiadau. Mae hynny'n arbennig o gofio bod yr honiadau'n delio â chyfnod byr o ychydig ddyddiau a honiadau cymharol syml (ond difrifol) yn hytrach, e.e. na honiadau am gamymddwyn drwy dorri rheolau technegol dros gyfnod o amser.

144. O ran yr elfen gyntaf, rwyf wedi canfod bod sail i awgrymiad Heulwen Davies bod yr oedi yn rhannol oherwydd aros (a gofyn eto) am dystiolaeth gan feddyg yr Hawlydd. Gan mai pwrpas hynny oedd canfod a oedd esboniad arall am ymddygiad honedig yr Hawlydd (h.y. sgil effeithiau meddygyiaeth yn hytrach na bod dan ddylanwad alcohol) rwy'n derbyn ei bod yn rhesymol i'r Atebydd dreulio'r amser i'w gasglu. Mae hynny'n egluro'r oedi tan Nadolig 2015 ond roedd mis arall hyd nes i'r Hawlydd gael manylion yr honiadau yn ei herbyn. Rwy'n derbyn bod gwyliau'r Nadolig a Blwyddyn Newydd hefyd yn achosi rhywfaint o oedi. Eglurodd Heulwen Davies bod gweddill yr oedi'n deillio o'r amser a gymerodd i gasglu llofnodion y tystion ar y ffurflenni caniatâd ac oedi wrth iddi dderbyn cyngor gan y Mudiad.

145. O gofio natur yr honiadau, roedd unrhyw oedi o reidrwydd yn mynd i achosi straen ychwanegol i'r Hawlydd. Rwy'n derbyn, fodd bynnag, nad oedd yr oedi wedi achosi annhegwch i'r Hawlydd. Nid achos oedd hwn lle'r oedd oedi cyn casglu'r dystiolaeth, fel bod risg i atgofion bylu. Roedd y dystiolaeth ar ffurf adroddiadau A-Dd ac ymateb yr Hawlydd (yn y cyfarfod ymchwilio) wedi ei chasglu erbyn diwedd mis Tachwedd (oni bai am dystiolaeth meddyg yr Hawlydd). Gan nad oedd Ms Davies wedi cynnal y fath broses o'r blaen rwy'n derbyn hefyd ei bod yn deg iddi ofyn cyngor y Mudiad am y camau nesaf. Byddai'n sicr yn well petai'r broses wedi digwydd yn gyflymach ym mis Ionawr ond nid wy'n derbyn i'r oedi golygu fod y broses fod tu allan i'r "band of reasonable responses". O gymryd i ystyriaeth adnoddau'r Atebydd roedd hi o fewn y band hwnnw i'r Atebydd benderfynu bod angen cymryd cyngor cyn cynnal gwrandawriad disgyblu.

[5.] The second concerns the role of Ms Davies. The claimant considers that Ms Davies was her primary accuser, the chief investigator and the decision maker all rolled into one, and was therefore not impartial.

146. Honiad yr Hawlydd yw i Ms Davies fod eisiau dod a'i swydd i ben ers mis Hydref 2015 er mwyn creu swydd i Alaw Davies. Rwyf eisoes wedi dweud nad wyf yn derbyn hyn. Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos i mi bod yr Atebydd wedi creu problem i'w hun drwy apwyntio Ms Davies i ymgymryd â'r ymchwiliad. Rwyf wedi derbyn ei thystiolaeth hi am yr hyn a ddigwyddodd ar y 4ydd. Petai'n dyst yn y broses ddisgyblu mae'n ymddangos i mi y byddai'r dystiolaeth yn erbyn yr Hawlydd am y 4ydd yn gryfach hyd yn oed nag yr oedd. Mae'n ymddangos i mi y byddai wedi bod yn well petai rhywun arall wedi ymgymryd â'r ymchwiliad; efallai

- rhywun o'r Mudiad. Wedi dweud hynny, Ms Davies oedd cadeirydd y Pwyllgor ar y pryd ac felly mae'n ddealladwy iddi hi arwain y broses.
147. Honiad yr Hawlydd yw nad oedd Ms Davies yn ddiuedd oherwydd iddi godi cwyn, ymchwilio a gwneud y penderfyniad yn ei hachos hi. Rwy'n deall i hynny olygu mai barn yr Hawlydd yw i Ms Davies naill ai ysgogi neu o leiaf annog eraill i roi tystiolaeth yn erbyn yr Hawlydd. Nid yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r honiad. Rwy'n derbyn bod Ms Davies wedi bod yn rhan o'r broses o ymchwilio ac o drefnu'r gwrandawriad disgyblu. Mae negeseuon testun o ychydig ddyddiau cyn y gwrandawriad yn dangos mai hi oedd yn cyfathrebu â'r Hawlydd ynglyn â gofyn i'r tystion fod yn bresennol yn y grandawriad disgyblu. Mae'n ymddangos i mi bod hynny'n deillio o'r ffaith mai Ms Davies oedd mewn gwirionedd yn delio â gwaith y Pwyllgor o ddydd i ddydd.
148. Fel y crybwyllwyd eisoes, roedd adroddiad Carys Lloyd (adroddiad C) yn sôn bod Heulwen Davies wedi dweud mai riant oedd wedi cwyno ar fore'r 4ydd. Dywedodd Carys Lloyd yn y triwlynys mai camgymeriad oedd hyn ac mai "rhywun" oedd wedi cwyno ac rwyf wedi derbyn ei hesboniad.
149. Yr hyn sy'n drysu pethau yw'r hyn a ddywedwyd yn y llythyr diswyddo [t.187], sef "the parent that rang Mudiad Meithrin on Wednesday 4th November to make a complaint was involved in the investigatory meeting and therefore their evidence has been excluded from the process. I can confirm that none of the disciplinary hearing panel have seen this evidence". Fel mae'r Hawlydd yn dweud, yr unig riant a oedd wedi bod yn rhan o'r broses oedd Heulwen Davies felly ei honiad hi yw mai Ms Davies wnaeth gwyno i'r Mudiad ar y 4ydd.
150. Nid yw hynny'n ymddangos i mi yn gyson gyda gweddill y dystiolaeth sy'n dangos mai'r Mudiad wnaeth alw Ms Davies ar y 4ydd yn hytrach na'r ffordd arall o gwmpas. Mae'n ymddangos i mi bod yma gamddeall yn deillio o ateb Heulwen Davies i holiad Ms Bevan wedi'r gwrandawriad disgyblaeth.
151. Beth bynnag am hynny nid wyf yn derbyn i Ms Davies mewn rhyw fodd annog tystion i greu achos yn erbyn yr Hawlydd. Rwy'n derbyn ei thystiolaeth hi mai derbyn datganiadau oedd ei rhan yn hytrach na'i "golygu". Rwy'n derbyn y byddai'n anodd ac yn artiffisial i Ms Davies anwybyddu ei chyfarfod gyda'r Hawlydd ar y 4ydd on rwy'n derbyn na chymerodd gamau i ddylanwadu'n annheg ar y broses. Os rhywbeth, fel y trafodaf yn y pwynt nesaf, y feirniadaeth bosibl yw i Ms Davies beidio â bod yn ddigon blaengar yn casglu tystiolaeth yn hytrach na dim ond derbyn yr hyn a wirfoddolwyd.
152. Nid wyf yn derbyn chwaith bod Ms Davies wedi chwarae unrhyw ran yn y penderfyniad i ddiswyddo na'r apêl oni bai am ateb cwestiynau ar y ffôn wedi'r gwrandawriad disgyblu. Gofynnodd Ms Bevan iddi am y penderfyniad i beidio atal yr Hawlydd rhag gweithio ar y 9fed ac am y gwyn gan riant ar y 4ydd. Mae'n glir o gofnodion yr alwad ffôn iddi ddweud na ddylid defnyddio unrhyw dystiolaeth gan riant ar y 4ydd. Rwy'n

deall i hynny gyfeirio at ei thystiolaeth hi ei hun. Mae cofnodion trafodaeth Ms Bevan a Ms Elias yn cadarnhau nad oedd adroddiad arall gan riant (yn hytrach nag un Ms Rees) yn rhan o sail y penderfyniad i ddiswyddo.

153. O ystyried maint ac adnoddau'r Cylch a rôl Ms Davies fel Cadeirydd rwy'n derbyn nad oedd yn afresymol iddi ymgymryd yr ymchwiliad ac na arweiniodd hynny yn ei hun at annhegwch i'r Hawlydd. Os unrwybeth mae'n ymddangos i mi fod ymdrechion Ms Davies i wneud yn siŵr nad oedd ei thystiolaeth hi'n rhan o'r broses wedi achosi problemau i'r Atebydd. Yn gyntaf golygodd na ddefnyddiwyd ei thystiolaeth am yr hyn ddigwyddodd yn y cyfarfod ar y 4ydd. Yn ail achosodd gamddeall am dystiolaeth "rhiant" a gododd amheuaeth yn meddwl yr Hawlydd am gŵyn arall na chafodd gyfle i'w ateb.

[6.] Whether the refusal to call witnesses requested to disciplinary hearing rendered the dismissal unfair?

154. Mae'n rhaid i mi gyfaddef bod hwn yn gwestiwn mwy anodd. Mewn ffordd mater o air yn erbyn gair oedd yr achos hwn. Ar yr un llaw roedd tystion yn honni bod yr Hawlydd yn dangos symptomau bod dan ddylanwad alcohol, ac ar y llaw arall yr Hawlydd yn honni nad oedd. Mae'n ymddangos i mi y byddai rhai cyflogwyr wedi penderfynu bod angen i'r panel disgyblu glywed gan y tystion [yn hytrach na darllen eu datganiadau] er mwyn penderfynu pwy oedd yn ddibynadwy.
155. Fel y dyfynnwyd eisoes, mae'r ACAS Guide yn cynghori: "be careful when dealing with evidence from a person who wishes to remain anonymous. Take written statements, seek corroborative evidence and check that the person's motives are genuine". Yn yr achos hwn mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol. Er bod rhai o'r adroddiadau A-Dd mewn theori yn ddiennw, mae'n amlwg o negeseuon testun bod yr Hawlydd yn gwybod pwy oedd y tystion. Crybwyllodd enw Vicky Lowden yn y gwrandawriad disgyblu ac roedd eisoes wedi gofyn iddi hi ac i Eleri Davies fod yn bresennol yn y gwrandawriad. Mae'n glir i mi nad achos oedd hwn lle'r oedd cadw datganiadau'n ddiennw yn golygu nad oedd yr Hawlydd yn gwybod yr achos yn ei herbyn.
156. Rwy'n nodi i Heulwen Davies ofyn i Ms Lowndes ac Eleri Davies i fod yn bresennol yn y gwrandawriad ond gwrthod gwnaeth y ddwy. Rwy'n derbyn i'r Atebydd roi cyfle i'r Hawlydd anfon cwestiynau ysgrifenedig ar gyfer y tystion ond ni wnaeth yr Hawlydd (naill ai ar gyfer y gwrandawriad gwreiddiol neu'r gwrandawriad apêl). Rwy'n derbyn hefyd bod dau o'r adroddiadau yn gwneud honiadau (A ac Dd) gan unigolion annibynnol nad oeddynt yn staff yn y Cylch.
157. Y cwestiwn canolog mae'n ymddangos i mi yw a ddylai'r Atebydd fod wedi cymryd camau pellach i sicrhau p'un ai fersiwn yr Hawlydd neu fersiwn y tystion yn yr adroddiadau oedd yn gywir. Nid achos oedd hwn lle'r oedd modd pigo trwy'r manylion mewn dogfennau er mwyn tanseilio tystiolaeth un ochr neu'r llall trwy anghysondebau. Yn hytrach

mater oedd o bwy oedd yn fwy credadwy. Byddai rhai cyflogwyr, mae'n ymddangos i mi, wedi penderfynu bod angen i'r panel disgyblu glywed gan y tystion. Mae hynny'n arbennig oherwydd yn yr achos yma roedd yr ateb wedi methi a chadw at ei gyfundrefn ysgrifenedig ei hun trwy beidio â chlywed oddi wrth y tystion yn y gwrandawriad ymchwilio. Roedd hynny'n golygu nad oedd cyfle wedi bod i brofi pa mor gredadwy oedd y tystion.

158. Fodd bynnag, y cwestiwn sydd angen i mi ei ateb yw a oedd y penderfyniad o fewn y "band of reasonable responses". Ar un llaw, roedd yma honiadau difrifol a niweidiol i enw da unigolyn. Ar y llaw arall roedd tystiolaeth ysgrifenedig gan ddau dyst annibynnol ac aelodau o staff. Nid yw'n ymddangos i mi bod y dystiolaeth o flaen y panel disgyblu yn peri iddynt amau diffuantrwydd y tystion a roddodd y datganiadau. Nid oedd arwydd o'r datganiadau eu bod wedi eu llunio gyda'i gilydd fel rhan o dwyll. Nid oedd yr Hawlydd wedi awgrymu yn y gwrandawriad bod gan y tystion reswm i ddweud celwydd yn ei herbyn. Roedd wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau ar bapur ond wedi peidio. Er fy mod o'r farn bod y penderfyniad i beidio â galw'r tystion i'r gwrandawriad yn golygu bod y broses ar ffin y "band of reasonable responses" rwy'n derbyn ei fod o fewn y band hwnnw.
159. Efen arall sy'n gysylltiedig yw'r penderfyniad i beidio â gofyn i'r staff a oedd yn gweithio ar y 4ydd a'r 5ed i roi tystiolaeth. Roedd dau aelod o staff na ymatebodd i'r gwahoddiad i roi datganiad ym mis Tachwedd 2015 er eu bod yn gweithio ar y 4ydd a'r 5ed. Dylai'r ymchwiliad fod wedi gofyn iddynt yn benodol am ddatganiad? Fel y soniais eisoes, dealltwriaeth Heulwen Davies oedd mai ei rôl hi oedd derbyn tystiolaeth nid chwilio amdani. Mae'r "ACAS Guide: Disciplinary and Grievance at Work" yn cynghori (dan yr is-deitl "Investigation"): "The nature and extent of the investigations will depend on the seriousness of the matter and the more serious it is the more thorough the investigation should be. It is important to keep an open mind and look for evidence which supports the employee's case as well as evidence against".
160. Fel awgryma **Now Motor Retailing** gall methu â chyfweld rhai a all fod yn dystion olygu bod y broses ymchwil y tu allan i'r "band of reasonable responses". Yn yr achos hwn, fodd bynnag, roedd y sefyllfa braidd yn wahanol. Roedd y ddau aelod o staff wedi ei gwahodd i roi tystiolaeth (yn y cyfarfod gan Eirwen Hughes) ond wedi penderfynu peidio â gwneud. Mae'n siŵr y byddai rhai cyflogwyr wedi penderfynu ymchwil trwy gynnal cyfweiliadau unigol gyda phob aelod o'r staff a oedd yn y Cylch ar y dyddiau perthnasol ond rwy'n derbyn bod y ffordd yr aeth y Cylch ati o fewn y "band", yn enwedig o gofio maint ac adnoddau y Cylch. Rwy'n derbyn petai'r Cylch wedi ail-ofyn i'r staff na roddodd dystiolaeth y gallai fod wedi cael ei gyhuddo o orfodi'r tystion i roi tystiolaeth.
161. 161. O gamu yn ôl, felly, er fy mod yn gweld gwallau yn y broses, rwy'n derbyn bod y gyfundrefn ymchwilio a disgyblaeth yn yr achos yma a'r penderfyniad i ddiswyddo ar ei sail o fewn y "band of

reasonable responses". Fy nyfarniad yw nad oedd y diswyddo yn yr achos yma yn annheg.

162. Er fy mod wedi canfod nad oedd y diswyddo yn annheg roedd agweddau o'r achos yma nad oedd yn foddhaol. Yn benodol, roedd adegau o oedi yn ystod y gyfundrefn ddisgyblaeth ac enghreifftiau o ddiffyg cyfathrebu rhwng y Cylch a'r Mudiad (a rhwng y Mudiad a'r Hawlydd ynglŷn â'r llythyr calnlyniad apêl) a arweiniodd at straen ychwanegol diangen i'r Hawlydd. Yn ogystal, roedd enghreifftiau lle nad oedd cofnod o gynnwys sgysiau neu gyfarfodydd pwysig. Mae elusennau fel y Cylch yn dibynnu ar wirfoddolwyr i redeg pwyllgorau ac o reidrwydd nid yw pob un o'r fath wirfoddolwyr yn mynd i fod yn arbenigwyr mewn materion cyflogaeth. Cadarnhaodd Heulwen Davies a Morfudd Bevan yn yn eu tystiolaeth nad oeddynt wedi cael hyfforddiant mewn delio a'r math hyn o achos. Mae'n ymddangos i mi fod galw ar gyrrff fel y Mudiad i wneud yn siŵr bod cyfundrefn mewn lle i alluogi a chynorthwyo'r fath wirfoddolwyr i ddelio yn gyflym ac effeithiol gydag achosion o'r math yma er budd y gwirfoddolwyr a'r cyflogai.

Barnwr Cyflogaeth

Dyddiad: 19 Chwefror 2017

ANFONWYD Y DYFARNIAD AT Y PARTIÖN AR

23 Chwefror 2017

AR RAN YSGRIFENNYDD Y TRIBIWNLYS CYFLOGAETH

.....

.....

NOTE:

This is a written record of the Tribunal's decision. Reasons for this decision were given orally at the hearing. Written reasons are not provided unless (a) a party asks for them at the hearing itself or (b) a party makes a written request for them within 14 days of the date on which this written record is sent to the parties. This information is provided in compliance with Rule 62(3) of the Tribunal's Rules of Procedure 2013.